

Mesur y galw am addysg ôl-16 trwy gyfrwng y Gymraeg ymhlith disgyblion
Blwyddyn 11 sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf mewn tair ysgol
uwchradd yng Ngheredigion.

Sandra Morris Jones
Traethawd MA Astudiaethau Dwyieithrwydd
Coleg Prifysgol y Drindod
2010



**Graddau Meistr trwy Arholiad a Thraethawd Hir
Ffurflen Ddatganiadau**

1. Ni dderbyniwyd y gwaith hwn eisoes o ran sylwedd am unrhyw radd ac nid yw'n cael ei gyflwyno ar hyn o bryd wrth ymgeisio am unrhyw radd.

Llofnod

Dyddiad.....

2. Cyflwynir y traethawd hir hwn i fodloni'n rhannol ofynion am radd (nodwch MA, MSc, MBA etc., fel y bo'n briodol).....

Llofnod

Dyddiad.....

3. Mae'r traethawd hir hwn yn ganlyniad fy ngwaith / ymchwiliadau annibynnol fy hun, ac eithrio lle y nodir yn wahanol.

Cydnabyddir ffynonellau eraill gan droednodiadau sy'n rhoi cyfeiriadau eglur. Atodir llyfryddiaeth.

Llofnodwyd

Dyddiad.....

4. Rwyf yn rhoi, drwy hyn, ganiatâd i'm traethawd hir, os derbynnir ef, fod ar gael ar gyfer llungopiö, benthyciadau rhwng llyfrgelloedd, ac i'w adneuo yng nghadwrfa ddigidol y Brifysgol.

Llofnodwyd

Dyddiad

Datganiad yr Arolygydd.

Rwyf yn fodlon mai canlyniad ymdrechion y myfyriwr ei hun yw'r gwaith hwn.

Llofnod:

Dyddiad:

CRYNODEB

Gosodir yr ymchwil o fewn cyd-destun agenda ieithyddol cenedlaethol Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i greu cynnydd o 5% yn nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2011, fel yr amlinellir mewn dogfennau megis Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog (LICC, 2003). I gyd-redeg â'r twf hwnnw yn ogystal, bwriedir sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth ac yn y galw am addysg Gymraeg/ddwylieithog, megis yr adroddir yn y ddogfen ymgynghoriadol Strategaeth Addysg Cyfrwng-Cymraeg (LICC, 2009).

Fel modd i sicrhau dilyniant i'r ddarpariaeth statudol trwy gyfrwng y Gymraeg, mae gan y sector addysg uwch hefyd swyddogaeth allweddol. Gosodwyd yn Iaith Pawb (LICC, 2003), felly, nod o sicrhau cynnydd o 7% yn nifer y myfyrwyr sydd yn dilyn cyrsiau naill ai yn llawn neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector hwnnw. Erbyn hyn sefydlwyd y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng-Cymraeg i hyrwyddo'r datblygiad gyda'i hadain farchnata, MANTAIS, yn chwarae rhan bwysig i godi ymwybyddiaeth ymhlith darpar-fyfyrwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael. Serch hynny, er awydd Llywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg ar draws y sectorau, gan gynnwys y sector Addysg Bellach ac Addysg Uwch, ni ellir sicrhau llwyddiant i'r agenda ieithyddol ar raddfa genedlaethol oni bai y gellir sicrhau cynnydd yn y galw yn ogystal.

Bwriad yr ymchwil oedd asesu lefel y galw hwnnw ymhlith disgyblion oedd ar fin gorffen cyfnod o addysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion

uwchradd. Cyfyngwyd yr ymchwil i ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 mewn tair ysgol uwchradd o fewn un awdurdod addysg lleol yng Nghymru gyda'r bwriad o weld i ba raddau roedd agenda ieithyddol cenedlaethol LICC yn dylanwadu ar eu dewis o gyfrwng addysg neu hyfforddiant ar gyfer y dyfodol.

DIOLCHIADAU

Dymunaf ddiolch i Gyfarwyddwr Addysg ac i Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion am ganiatâd i gynnal yr ymchwil. Yn yr un modd, hoffwn ddiolch i Gadeiryddion Llywodraethwyr, Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid Ysgol Uwchradd Tregaron, Ysgol Uwchradd Llanbedr Pont Steffan ac Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth, am bob cymorth a chydweithrediad wrth weithio ar yr ymchwil hwn. Carwn ychwanegu, hefyd, aelodau staff cwmni Gyrfa Cymru am eu cydweithrediad. Yn olaf, ond nid yn lleiaf, carwn gydnabod cyngor, doethineb ac arweiniad Dr Hywel Glyn Lewis am ei gefnogaeth gadarn ar hyd y daith.

CYNNWYS

Pennod 1	Cyflwyniad a chyd-destun gwleidyddol yr ymchwil	7
Pennod 2	Adolygiad Llenyddiaeth	18
Pennod 3	Methodoleg	29
Pennod 4	Dadansoddiad y data	34
Pennod 5	Canlyniadau	75
Pennod 6	Argymhellion	82
Pennod 7	Cyfeiriadau	90
Pennod 8	Atodiadau	95

CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN GWLEIDYDDOL YR YMCHWIL

Yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif bu cryn newid yn sefyllfa ieithyddol a diwylliannol Sir Geredigion wrth i batrymau demograffiaid rhai ardaloedd newid yn sylweddol. Ceir tystiolaeth fywgraffiadol ac archifol i'r Saeson a'r rhai di-Gymraeg a symudai i'w hysgolion newydd o fewn y sir yn y gorffennol feistroli'r iaith Gymraeg ac aros yn y sir, gan fagu teuluoedd Cymraeg eu hiaith. Erbyn y 1970au, fodd bynnag, roedd y niferoedd a gyrhaeddai rai ardaloedd yn fawr ac yn gosod her ychwanegol i'r ysgolion a'u cymunedau. Byddai cymathu pawb yn ieithyddol yn ysgolion cynradd ac uwchradd y sir, fel y digwyddai o'r blaen, bellach yn dasg amhosibl. Maentumiai Dafis (1979, 1985), wrth drafod sefyllfa ieithyddol Dyffryn Teifi ar y pryd, fod polisi cymathol lle medrid troi pawb yn ddwyieithog yn y gorffennol, bellach yn amhosibl. Er mwyn diogelu'r Gymraeg yn yr ardal, felly, byddai angen ystyried sefydlu ysgolion Cymraeg penodedig, sef yr hyn a alwai yn gyfundrefn ieithyddol-luosogaethol:

Y mae i gyfundrefn luosogaethol ei hanfanteision amlwg, ond fe allai arafu'r shifft ieithyddol trwy sefydlogi'r sefyllfa am gyfnod a chryfhau safle'r Gymraeg, gan adael yn agored y posibilrwydd o adfywiad i'r iaith dan amodau y gellid eu creu yn rhannol o fwriad ac, yn rhannol, trwy ffactorau allanol. (Dafis, 1985:27)

Y gyfundrefn "luosogaethol" oedd yr ysgolion Cymraeg penodedig a geir ochr yn ochr ag ysgolion Saesneg eu cyfrwng. Yr ysgolion "cymathol" oedd yr ysgolion Cymraeg traddodiadol, sef ysgolion cyfrwng Saesneg a Chymraeg ond a amrywai o gyfrwng Cymraeg yn bennaf i gyfrwng Saesneg yn bennaf, a geid ac a geir o hyd yng Ngheredigion.

Ceid trafod ar y testun mewnlifiad yn gymharol gyson yn y gorffennol ar y cyfryngau a phery trafodaethau o hyd, megis rhaglen deledu am ardal Llangeitho a ddarllledwyd ar S4C ym mis Mawrth 2010, pan ailymwelwyd ag ymchwil Aitchinson a Carter (1994) yn benodol, a'r dystiolaeth am ddirywiad ac am ddyfudiad iaith tebygol ar draws ardaloedd Cymraeg. Colli tir fu hanes yr iaith Gymraeg yn ystod yr ugeinfed ganrif, fel y dengys ystadegau'r Cyfrifiad gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (Office for National Statistics) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyd y degawdau. Gwelir bod bron hanner poblogaeth Cymru'n medru'r Gymraeg ar ddechrau'r ugeinfed ganrif ond bod dirywiad cyson yn nifer y siaradwyr fesul Cyfrifiad:

Tabl 1: Niferoedd a chanrannau siaradwyr y Gymraeg fesul Cyfrifiad 1901–1991

Blwyddyn	Miloedd o bobl	Canran
1901	929.8	49.9
1911	977.4	43.5
1921	922.1	37.1
1931	909.3	36.8
1941	Dim Cyfrifiad	
1951	714.7	28.9
1961	656.0	26.0
1971	542.4	20.8
1981	508.2	18.9
1991	500.0	18.5

O fewn y patrwm hwn ceid ystadegau am nifer y siaradwyr Cymraeg o fewn y siroedd unigol ac ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif y lefelau uchaf o siaradwyr Cymraeg a gafwyd oedd fel a ganlyn yng Nghyfrifiad 1991, fel y ceir hwy gan y Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (Office for National Statistics):

Tabl 2: Y chwe sir â'r niferoedd uchaf o siaradwyr y Gymraeg yn 1991

Awdurdod Unedol	Miloedd
Sir Gaerfyrddin	89
Gwynedd	78
Ynys Môn	41
Ceredigion	36
Conwy	31

Fodd bynnag, ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, gwelwyd cynnydd yn nifer siaradwyr y Gymraeg yng Nghymru gyda Chyfrifiad 2001 yn dangos bod canran o 20.8% yn medru siarad yr iaith. Gwnaethpwyd ymchwil pellach yn 2004 i nifer siaradwyr y Gymraeg gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a chafwyd cynnydd pellach eto, canran o 21.7%, sef 0.9% yn uwch na chanlyniad Cyfrifiad 2001.

Un o'r digwyddiadau mawr yn 2003 yn hanes Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran deddfu dros yr iaith Gymraeg yn ogystal â chynllunio at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg oedd cyhoeddi cynllun cenedlaethol o'r pwys a'r pwysigrwydd mwyaf, sef Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog wedi cyfnod o ymgynghori a thrafod. Gosodwyd disgwyliadau megis targedau penodol a phendant i weithio tuag atynt a gwelir bellach academyddion iaith y tu mewn a'r tu allan i Gymru yn ymddiddori yn y broses hon. Nodir yn Iaith Pawb (LICC, 2003) dan bennawd 2.13:

Mae ein nod yn un feiddgar. Nid oes dim diben gosod ein targedau'n isel. Nid ydym bellach yn poeni'n unig am sefydlogi nifer a chanran y siaradwyr Cymraeg. Rydym eisiau gweld cynnydd yn nifer a chanran y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg. (LICC, 2003:11)

Yn Iaith Pawb (LICC, 2003) cafwyd dogfen hanesyddol o ran y Gymraeg am mai hon oedd y ddogfen swyddogol gyntaf a ddeuai o du'r Llywodraeth a nodai dargedau ar gyfer creu Cymru ddwyieithog. Rhoddwyd sylw i rôl mudiadau megis Mudiad Ysgolion Meithrin er mwyn cynyddu siaradwyr ymhlith y Blynyddoedd Cynnar, sef oed cyn-ysgol, ac i'r Mentrau Iaith i gynnal a chefnogi dwyieithrwydd yn y gymuned, sydd yn berthnasol iawn i ddisgyblion yn eu harddegau wrth iddynt wneud penderfyniadau pwysig am eu haddysg, eu hyfforddiant a'u gwaith yn y dyfodol. Dywedwyd ym mhwynt 2.14:

Credwn bod lles tymor-hir yr iaith yn dibynnu ar alluogi cynifer o blant cyn oed ysgol a phobl ifanc ag y bo modd i gael gafael ar yr iaith a hynny mor gynnar ag y bo modd. Felly, rydym am gynnal y twf a welwyd yn yr iaith dros y ddau ddegawd diwethaf ymhlith plant oed ysgol, cynyddu nifer y rhieni sy'n siarad Cymraeg sy'n ei throsglwyddo i'w plant ac annog y rheiny sydd wedi defnyddio neu ddysgu'r iaith yn yr ysgol i'w chadw a'i defnyddio ar ôl iddynt adael. (LICC, 2003: 11).

Nodwyd yr angen am gynllunio a chynyddu'r galw yn y sector Addysg Uwch yn y bennod oedd yn ymwneud â hawliau'r unigolyn, fel a ganlyn:

Adnabod tueddiadau a chynllunio lefelau darpariaeth a chyflenwad mewn AU cyfrwng Cymraeg at y dyfodol, gan gynnwys camau posibl i gynyddu'r galw. (LICC, 2003: 46)

Cafwyd sylw ar gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch yn Ymgeisio yn Uwch (LICC, 2002) pryd y gwnaed ymrwymiad i ehangu cyfleoedd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg drwy gydweithio hyblyg rhwng sefydliadau addysg uwch. Ymrwymodd Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith (LICC, 2006) i darged o gynyddu canran y myfyrwyr a oedd yn byw yng Nghymru, a oedd yn astudio mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ac a oedd yn dilyn rhywfaint o'u cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i 7% erbyn 2010.

Gwrthdroi Dyfudiad Iaith (Reversing Language Shift) y gelwir y broses o geisio adfer ac adfywio ieithoedd sydd yn gwanychu neu yn wynebu marwolaeth, sef yr hyn a geir yn ddyhead ac yn fwriad yn Iaith Pawb a'r dogfennau perthnasol a dylanwadol eraill a ddaeth o du Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004, 2006, 2009). Cafwyd astudiaethau am newid sefyllfa a statws ieithoedd lleiafrifol (Coulmas, 1991; Hughes, 1993), am newid sefyllfa a chodi statws ieithoedd oherwydd dyhead a phenderfyniad gwleidyddol, megis y penderfyniad i ddefnyddio'r Hebraeg yng ngwlad newydd Israel er 1948 (Fellman, 1973; Spolsky, 1995) a phenderfyniad llywodraeth Estonia i hyrwyddo'r Estoneg ar draul y Rwsieg (Rannut, 2006).

Cyhoeddwyd y ddogfen Llwybrau Dysgu 14-19 gan Adran Hyfforddiant ac Addysg y Cynulliad yn 2004. Ynndi cyflwynwyd ffordd newydd o feddwl am gyfleoedd dysgu yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 ac addysg ôl-16, gyda phob disgybl neu "ddysgwr" (learner) â hawliau dewis o blith tua 30 o bynciau, nid o reidrwydd ar yr un campws academiaidd. Er mwyn cyflawni amcanion heriol y strategaeth newydd a'r dull o ddarparu'r cwricwlwm, anogir yn gryf a disgwylir i ysgolion gydweithio a chydweithredu fel y gallant dderbyn cyllid digonol at gyflawni hynny. Fel rhan o'r cwricwlwm newydd, ceir unedau craidd o ddysgu ac ymarfer sgiliau allweddol; addysg fugeiliol, iechyd a chymdeithasol, a phrofiadau menter a busnes. Cafwyd eisoes brosiectau peilot a chanfuwyd bod anawsterau ariannol, amserlennol a chludiant yn bodoli – a'r rheiny hyd yn oed mewn ardaloedd dinesig a threfol. Yng Ngheredigion, cafwyd ystyriaethau ychwanegol ynglŷn â phellter rhwng ysgolion, diffyg gwasananaethau trafndiaeth gyhoeddus a gofynion darpariaeth gyfrwng-

Cymraeg. Gosodwyd cyfrifoldeb ar yr awdurdodau addysg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu ar gyfer y cyfnod 14–19 trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfartal â darparu trwy gyfrwng y Saesneg. Golygai hyn ddilyniant a pharhad cyfrwng yn ogystal â dilyniant a pharhad cwricwlaidd.

Cafwyd sylw gan Estyn (2008), yr Arolygiaeth Ysgolion yng Nghymru, ar ganrannau disgyblion oedd wedi sefyll arholiadau Cymraeg iaith gyntaf ac asesiadau cyfrwng Cymraeg yn 2006 mewn chwe awdurdod, sef y chwe awdurdod lle ceid y canrannau uchaf o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2001. Ceredigion oedd un o'r chwe awdurdod dan sylw.

(Ffynhonnell: ffigyrau Cyfrifiad 2001 ac ystadegau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru)

Tabl 3: Canran ymgeiswyr TGAU ac asesiadau Cymraeg yn y 6 awdurdod â'r niferoedd uchaf o siaradwyr y Gymraeg

	Canran y boblogaeth dros 3 oed yn siarad Cymraeg	Canran y bobl ifanc 15 oed yn siarad Cymraeg	Canran ymgeiswyr arholiad TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn 2006	Canran holl asesiadau terfynol cyfrwng Cymraeg yn 2006
Môn	60.1	80.0	69	28
Gwynedd	69.0	90.2	80	52
Conwy	29.4	51.2	18	12
Sir Ddinbych	26.4	45.5	25	12
Ceredigion	52.0	81.9	59	15
Sir Gaerfyrddin	50.3	61.0	30	18
Cymru	20.8	42.8		

Nodir bod canran uchel, sef 81.9%, o holl ddisgyblion Blwyddyn 11 ysgolion uwchradd Ceredigion yn medru siarad y Gymraeg yn 2006. Dywed Estyn (2008) am y ganran uchel hon:

Rhaid bod yn ofalus â'r ffigyrau yn yr ail golofn, gan nad yw'r categori o angenrhaid yn cynrychioli'r niferoedd o bobl ifanc 15 oed a allai ddygymod â gofynion ieithyddol dilyn cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg. (Estyn, 2008: 13 a 14).

Yng ngholofnau tri a phedwar, nodir bod 59% o holl ddisgyblion Blwyddyn 11 ysgolion uwchradd Ceredigion wedi sefyll arholiad TGAU Cymraeg, sef Cymraeg fel iaith gyntaf, tra bod y canran a oedd wedi sefyll asesiadau cyfrwng Cymraeg mewn pynciau eraill heblaw Cymraeg yn sylweddol is, sef 15%. Dywed Estyn (2008):

Fodd bynnag, mae'n rhesymol disgwyl bod gwell cyfatebiaeth rhwng y ffigyrau yn y ddwy golofn olaf. ...Mae ffigurau Môn a Sir Ddinbych, ac yn enwedig Ceredigion, yn isel." (Estyn, 2008: 14).

Yn yr adroddiad nodir ystadegau Cyd-bwyllgor Addysg Cymru (2006) am ganran ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg yn y gwahanol bynciau yn y chwe awdurdod a nodwyd eisoes.

Tabl 4: Canran ymgeiswyr cyfrwng Cymraeg pynciau TGAU yn y 6 awdurdod â'r nifer uchaf o siaradwyr y Gymraeg

	Daear.	Hanes	Ast. Cref.	TGCh	Busnes	Math.	Gwydd. ddwbl
Môn	28	35	46	0.4	17	39	36
Gwynedd	65	85	89	58	53	66	65
Conwy	12	13	40	0	16	13	12
Sir Ddinbych	15	15	9	18	14	12	12
Ceredigion	39	35	43	14	25	10	22
Sir Gaerfyrddin	18	20	17	16	24	11	6

Dengys Tabl 4 fod llawer o amrywiaeth yn y pynciau unigol ar draws awdurdodau gwahanol ac, yn ogystal, rhwng y pynciau o fewn yr un

awdurdod. Yng Ngheredigion gwelir bod y canrannau ar gyfer y pynciau craidd Mathemateg a Gwyddoniaeth yn is nag mewn Hanes, Daeryddiaeth ac Astudiaethau Crefydd. Wrth symud at weithredu rhan 16–19 Llwybrau Dysgu, 14-19 (Blynyddoedd 12 a 13), a chynnig profiadau ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig, achoswyd cryn bryder mewn awdurdod addysg gwledig cyfagos, sef Awdurdod Addysg Powys, pan lanswyd cynlluniau i greu canolfannau ôl-16 a chau rhai ysgolion uwchradd.

Fodd bynnag, cyhoeddwyd ym mis Medi 2009 gan Gyfarwyddwr Addysg Ceredigion y bwriad i gefnogi chweched dosbarth pob ysgol uwchradd yn y sir ac i ddarparu yn gynyddol trwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriedir nid yn unig gwrdd â thargedau'r Cynulliad ond gwella arnynt er mwyn sicrhau bod y canrannau uchaf posibl o ddisgyblion y sir yn gwbl ddwyieithog.

Yn 2009, cyhoeddwyd dogfen ymgynghorol ar Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Hwn oedd y tro cyntaf i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg ar lefel genedlaethol. Gwnaethpwyd hynny er mwyn cyflawni'r ymrwymiad a wnaed yn flaenorol yn y ddogfen Cymru'n Un: Rhaglen Flaengar ar gyfer Llywodraethu Cymru (LICC, Mehefin 2007), sef creu "Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu". Y bwriad oedd adeiladu ar ddogfennau blaenorol Llywodraeth Cynulliad Cymru megis Iaith Pawb (2003). Yn y ddogfen ymgynghorol honno, gosodwyd chwech o nodau strategol ar gyfer y gyfundrefn addysg, y cartref

a'r gymuned. Yn berthnasol i'r astudiaeth hon, tynnir sylw yn benodol at eiriad Nod Strategol 2 a'r cyfeiriad at ddilyniant ieithyddol:

Gwella'r broses o gynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant, gan ystyried dilyniant ieithyddol a datblygu sgiliau'n barhaus. (LICC, 2009:53)

Hefyd, geiriad Nod Strategol 4:

Sicrhau gweithlu addysg cyfrwng Cymraeg wedi'i gynllunio sy'n darparu nifer ddigonol o ymarferwyr ar gyfer pob cyfnod addysg a hyfforddiant, ac sy'n meddu ar sgiliau iaith Cymraeg da iawn a chymhwysedd mewn methodolegau addysgu. (LICC, 2009:81)

Gwelir bod Nod Strategol 4 yn hynod bwysig yn y sector addysg gyfrwng Cymraeg ac yn hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant Nod Strategol 2.

Trwy gydol y ddogfen ymgynghorol ceir ymdriniaeth dreiddgar o'r gwahanol agweddau ar addysgu'r Gymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n dangos ôl paratoi gofalus a gweledigaeth at greu Cymru ddwyieithog y dyfodol. Dangosir ymwybyddiaeth o arferion da a drwg y gyfundrefn bresennol ac o'r anawsterau a'r pryderon sydd yn bodoli ar hyn o bryd. Nodir yn yr adran Gwybodaeth a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd:

Ymddengys bod diffyg ymwybyddiaeth yn gyffredinol ymhlith dysgwyr a'u rhieni o fanteision sgiliau dwyieithog o ran chwilio am gyflogaeth. Ysgolion ac awdurdodau lleol, sefydliadau AB a Gyrfa Cymru sy'n gyfrifol ar y cyd am wella ymwybyddiaeth. Mae gwaith Gyrfa Cymru yn ategu fframwaith cwricwlwm Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith a gyflwynir gan ddarparwyr dysgu ar gyfer yr ystod oedran 11-19 ac yn ychwanegu gwerth ato. (LICC, 2009:99)

Yn yr adran Canlyniadau, Targedau a Monitro, nodir targedau ar gyfer cynyddu canrannau siaradwyr Cymraeg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1, 2 a 3. Noda Canlyniad 3: "Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4" (LICC, 2009:112) a Tharged 3: "Cynnydd yng nghanran cofrestriadau TGAU cyfrwng Cymraeg, o

10% yn 2008 i 13% yn 2015” (LICC 2009:112). Dywedir: “Mae gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg i’r ystod oedran 14-19 yn thema bwysig yn y Strategaeth, a’n nod yw gweld cynnydd sylweddol ym mhob pwnc, gan gynnwys meysydd galwedigaethol” (LICC, 2009: 112). Mae canran y cofrestriadau TGAU ar gyfer pynciau cyfrwng Cymraeg, sef 10%, wedi aros felly er 1998 ac ymddengys y ffigwr hwn yn wahanol i’r cynnydd parhaus yn nifer y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 1 a 2 yn y sector cynradd yn ystod y degawdau diwethaf. Gosodir targed gan LICC ar gyfer cofrestriadau TGAU cyfrwng Cymraeg yn 2015, (13%), gan gyfeirio at ganran y disgyblion hynny yn 2006 pan aseswyd hwy ym Mlwyddyn 2, sef 20%:

Gan fod llawer o le i wella yn y maes hwn mewn sawl awdurdod lleol, mae cynnydd o 10% i 13% yn darged realistig. Disgwylir targed priodol ar gyfer y canlyniad hwn yng Nghynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol hefyd. (LICC 2009:112)

Bwriedir monitro’r gwaith yn rheolaidd o 2010 ymlaen ac arweinir y gwaith hwn gan Uned Datblygu’r Iaith Gymraeg yn Adran Plant a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (APADGOS) Llywodraeth Cynulliad Cymru. Er mwyn gwireddu dyheadau Iaith Pawb (LICC, 2003) am Gymru ddwyieithog, gwelwyd angen am gynlluniau clir, targedau heriol, cyraeddadwy a system fonitro effeithiol. Ceisiwyd gosod y sylfeini’n gadarn at gyrraedd y nod a gwireddu’r freuddwyd. Yn yr adran sy’n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg yn y sector statudol cyfeirir yn benodol at Sir Ceredigion. Dywedir:

Mewn siroedd eraill yn y gorllewin (Ceredigion a Sir Gaerfyrddin yn bennaf), defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu a dysgu i raddau amrywiol, ac mae’r amrywiadau hyn yn bodoli rhwng ysgolion ac o’u mewn. Mae Ceredigion bellach wedi mabwysiadu polisi iaith â’r pwyslais ar annog twf ym mhob ysgol ar gontinwmm, gyda chynllun datblygu i gynyddu’r ddarpariaeth dros amser. Nod y polisi hwn yw cynnig y cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl, a phob ysgol, gynyddu

eu potensial i atgyfnerthu sgiliau yn Gymraeg yn ogystal ag yn Saesneg. (LICC 2009:42)

Nodir y gwahaniaeth sydd yn y ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg a gynigir gan ysgolion, gan ychwanegu blaenoriaeth amlwg i gynyddu'r ddarpariaeth:

“Blaenoriaeth arall fydd annog ysgolion yr ystyrir eu bod yn ysgolion cyfrwng Cymraeg i gynyddu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ddigonol i ddatblygu Cymraeg disgyblion mewn amrediad eang o gyd-destunau”. (LICC, 2009:42)

Dywed Baker (1990) am y sector Addysg Uwch:

However, one Achilles heel of bilingual education in Wales has been post-school bilingual provision. Higher education and further education have sometimes failed to keep pace with changes in bilingual secondary education. This can decrease the intrinsic value of Welsh-medium examinations. A related problem has been to retain bilingually educated pupils within the Welsh higher education system. (Baker, 1990:86)

Pwrpas yr ymchwil hwn, felly, yw ymchwilio i'r ymateb i gynlluniau'r llywodraeth ymhlith disgyblion a oedd yn eu blwyddyn olaf o addysg statudol mewn tair ysgol uwchradd o fewn un awdurdod addysg, a mesur a oedd y galw ar ran y disgyblion hynny yn gymharus â'r ddarpariaeth a ddisgwylir gan y cyrff swyddogol, megis Llywodraeth Cynulliad Cymru, Estyn a'r awdurdod addysg lleol.

ADOLYGIAD LLENYDDIAETH

Gwnaed astudiaethau gan amryw o academyddion megis Baker (1985, 1992, 2001), sydd wedi ymchwilio i agweddau addysgol ar ddwyieithrwydd yng Nghymru dros gyfnod helaeth o flynyddoedd. Gwnaethpwyd ymchwil ar agweddau cymdeithasol ar ddwyieithrwydd hefyd gan Dafis (1979) ar ardal Llandysul/ Castellnewydd Emlyn yn nyffryn Teifi wrth iddo drafod dylanwad mewnfudwyr a hwyrddyfodiaid di-Gymraeg ar ddarpariaeth addysg ddwyieithog a Chymraeg yn yr ardal honno. Er mwyn diogelu'r Gymraeg a sicrhau ei ffyniant, argymhellai sefydlu ysgolion Cymraeg penodedig, gan nad oedd y trefniant o ddarparu ysgolion Cymraeg traddodiadol yn medru cynnal y Gymraeg yn wyneb niferoedd uchel o fewnfudwyr di-Gymraeg. Golygai ffyniant yr ysgolion hynny y deuai nifer gynyddol debygol o ddisgyblion o'r ysgolion cynradd a fyddai'n bwydo'r ysgol uwchradd Gymraeg o gartrefi di-Gymraeg ac felly, byddai'n anorfod y byddai rhai disgyblion a fyddai'n sefyll arholiad TGAU Cymraeg yn dod o gartrefi di-Gymraeg.

Dengys ymchwil Gruffudd, Meek a Stevens (Llais y Lli, 2004) ar symudiad plant o'r rhaglen astudio Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 2 i'r rhaglen astudio Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3, nad yw argaeledd y ddarpariaeth bob amser yn ddigonol mewn ysgolion Cymraeg traddodiadol.

Dywedir am sefyllfa y diffyg dilyniant a pharhad ieithyddol:

Gall y symud ddigwydd wrth i rai ysgolion mewn ardaloedd Cymraeg ddarparu addysg Saesneg yn bennaf, neu i raddau llawer mwy nag ysgolion o'u cwmpas. Gall ddigwydd hefyd wrth i ddisgyblion wynebu dewis o berthyn i ffrwd Gymraeg neu ffrwd Saesneg, a dewisiadau pellach wrth ddewis cyfrwng pynciau eraill. Yn wyneb dewisiadau niferus o'r math hwn, nid yw'n syn bod y dilyniant ieithyddol yn llai effeithiol yn yr ardaloedd Cymraeg.

Gan fod yr ysgol y bydd plant y siroedd Cymraeg yn ei mynychu'n fwy tebyg o fod yn ysgol ardal, ni fydd dewis iaith o reidrwydd yn uchel ym meddyliau rhieni yn y broses drosglwyddo i ysgol uwchradd. (Llais y Lli/ Gruffudd, 2004:9)

Pan edrychwyd ar 15 o ysgolion mewn ardaloedd traddodiadol Gymraeg, lle addysgid trwy gyfrwng y Saesneg yn bennaf a rhywfaint trwy gyfrwng y Gymraeg, nodwyd eu bod wedi eu lleoli yn siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Môn yn bennaf. Roedd 35.6% o symudiad i'r sector ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 3 o'r sector Cymraeg iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 2 yng Ngheredigion. Trafodwyd dylanwad rhieni ar raglen astudio ieithyddol eu plant a rhan rhai awdurdodau addysg yn y broses drosglwyddo ieithyddol.

Nodir:

Mae tair sir y de-orllewin – Ceredigion, Caerfyrddin a Phenfro – yn ymddwyn yn dra gwahanol i'r siroedd eraill ac yn gyfrifol am y prif symud i ddysgu trwy gyfrwng y Saesneg. (Llais y Lli/ Gruffudd, 2004:30)

Ymddengys, felly, bod y gagendor rhwng dymuniad LICC i gynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a'r galw a ddaw o du'r disgyblion eu hunain yn fawr. Mewn rhai achosion gwelwyd nad oedd y dyhead a'r bwriad a gyhoeddwyd yn Iaith Pawb (LICC, 2003) yn weithredol ar lefel yr awdurdodau addysg lleol nac ar lefel ysgolion unigol. Canlyniad amlwg i'r symudiad i'r sector Cymraeg ail iaith oedd diffyg adeiladu ar brofiadau cyfrwng Cymraeg cynharach Cyfnod Allweddol 2 a dileu'r galw am astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddarach yng Nghyfnod Allweddol 4 drwy amddifadu'r disgyblion o'r arferiad o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghyfnod Allweddol 3.

Mewn rhannau eraill o Ewrop, megis Iwerddon ac Estonia, ceir datblygiadau tebyg i'r hyn sy'n digwydd gyda'r Gymraeg ac addysg cyfrwng Cymraeg gan eu llywodraethau. Cyhoeddwyd Statement on the Irish Language yn 2006 gan Lywodraeth Gweriniaeth Iwerddon pryd y nodwyd 13 o amcanion allweddol dros gynnal a hyrwyddo'r iaith Wyddeleg. Yn sgil hyn, ym mis Chwefror 2009, cyhoeddwyd strategaeth ugain mlynedd ar gyfer yr iaith Wyddeleg, 20-year Strategy for the Irish Language (Fiontar, 2009) gan weithgor Fiontar ym Mhrifysgol Dulyn ar gais yr Adran Materion Cymunedol, Gwledig a'r Gaeltacht (The Department of Community, Rural and Gaeltacht Affairs):

... to institute a language planning process to increase the number of daily or active users of Irish from the current level of approximately 72,000 to 250,000 in 20 years. (Fiontar, 2009:7).

Gwelir tebygrwydd rhwng dogfen Fiontar a dogfennau Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog (LICC, 2003) a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg yng Nghymru (LICC, 2009). Casglwyd ystadegau gan Fiontar ac ar sail y rheiny dywedir:

Extrapolating from a large body of evidence, we have concluded that language maintenance is enhanced when the conjunction of three processes is supportive: the *ability* (or capacity) to use the language; *opportunities* to use it; and *attitudes* towards its use. (Fiontar, 2009: 5)

Gwneir argymhellion pellgyrhaeddol yn y ddogfen gyda sylw manwl i gyfraniad y sector addysg. Argymhellir gosod y Wyddeleg yn rhan o hyfforddiant athrawon cynradd; ehangu'r ystod o bynciau a ddysgir trwy gyfrwng y Wyddeleg yn yr ysgolion a cholegau; sefydlu canolfan arbennig National Centre of Excellence for Irish-Medium Education a helaethu'r ddarpariaeth:

... it is important to increase access to education through the medium of Irish to a greater proportion of each cohort. (Fiontar, 2009: 20)

Er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd ac addysg trwy gyfrwng y Wyddeleg, gwneir y sylwadau hyn:

It is recommended that information be produced for various categories of school professionals such as speech therapists, guidance counsellors, career advisors and others, to promote the benefits of bilingualism and especially Irish language learning. (Fiontar, 2009: 23)

Rhanna'r ddogfen ddisgyblion yn rhai â'r Wyddeleg yn iaith gyntaf iddynt, rhai â'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt a'r newydd-ddyfodiaid. Sonnir am "career benefits of bilingualism"(2009: 23) yn y ddau ddsbarth cyntaf o ddisgyblion a sonnir y dylai'r trydydd dosbarth, y rhai newydd i Iwerddon, "should also be included in all Irish language activities" (2009: 23). Cyfeirir at newid agwedd, neu ragfarn, er mwyn datblygu'r iaith:

... that aim to convert the objectives into mechanisms to expand and develop ability in Irish, to expand and deepen the opportunities for its use and to foster positive and accepting attitudes which aim to encourage the use of Irish in all public life. (Fiontar, 2009: 24)

Tra cyfeirir at bwysigrwydd y cyfryngau torfol ac at yr angen am wella'r marchnata a pharhau i hyrwyddo llenyddiaeth, ni chyfeirir at gynlluniau penodol at newid agweddau pobl tuag at yr iaith Wyddeleg nac ychwaith at gynlluniau ar gyfer cynyddu'r galw am addysg gyfrwng Wyddeleg ar draws ystod yr oedran a'r gallu. Wrth gloi'r ddogfen cyfeirir at yr iaith Wyddeleg ar gyfnod o newid mawr yn ei hanes, dywedir:

A future Ireland in which the Irish language is vibrant, widely used and appreciated is one of the greatest investments that could be made to secure a just, autonomus, distinctive and permanent role for Irish civilisation in a world experiencing such profound change. (Fiontar, 2009: 37)

Medrir cyffelybu'r ddogfen Wyddelig â'r ddogfen Iaith Pawb (LICC, 2003)

ond ceir diffyg eglurdeb a manylder am gynllunio tuag at gynyddu'r galw am

addysg gyfrwng Wyddeleg ac am sicrhau darpariaeth deilwng ar draws ystod y pynciau academaidd ar gyfer yr ystod yr oed a'r gallu.

Mewn papur am ddwyieithrwydd Estonia (Rannut: 2006) trafodir sefyllfa o newid ieithyddol yn sgil newidiadau gwleidyddol yn y wlad, sef dirywiad yr iaith Rwsieg a arferai fod yn iaith "uchel" ei bri dan yr hen drefn Rwsiaidd, ac adfywiad yr iaith Estoneg a arferai fod yn iaith "isel" (Fishman, 1990, 1991). Dywed Rannut (2006) am y rhai a gâi fanteision yr Estoneg er iddynt fynychu'r ysgolion Rwsieg:

Research has shown a strong connection between Estonian language proficiency and competitiveness: according to research data from 2004, those who received high grades in Estonian in Russian schools were much better off five years after graduation, even if the only reason for high grades in Estonian was a bilingual background at home. (Rannut, 2006:83)

Erbyn hyn gwelir yr Estoneg yn brif gyfrwng addysg yn Estonia, er yr erys rhai ysgolion Rwsieg mewn bodolaeth o hyd. Er y gwahaniaethau gwleidyddol amlwg yn statws y ddwy wlad, ymdebyga Estonia a Chymru i'w gilydd yn y ffaith bod rhieni Rwsieg eu hiaith yn gweld manteision i'w plant fedru siarad Estoneg, megis rhieni di-Gymraeg yn dewis addysg gyfrwng Cymraeg i'w plant. Noda Rannut(2006):

There is an increasing demand among the Russian-speaking community for increased Estonian language learning opportunities. Current teaching strategies for Estonian as a second language implemented in Russian schools have not been efficient enough. ... Therefore, Estonian schools are highly valued among Russian parents, who are increasingly seeking opportunities to help their children become bilingual. (Rannut, 2006: 83/ 84)

Medr newidiadau gwleidyddol, felly, effeithio ar y galw am addysg trwy gyfrwng iaith a fu'n iaith leiafrifol ar un adeg, ond gall ffactorau eraill effeithio

ar y galw am addysg ddwyieithog yn ogystal, gan gynnwys agweddau'r myfyrwyr eu hunain.

Dywed Laugharne (2007) wrth drafod defnydd o'r iaith Gymraeg ac agwedd at yr iaith:

It has been recognised that there is a less satisfactory provision for Welsh-medium education between the ages of 16 and 21 than in earlier phases (Estyn, 2004a). Lack of suitably qualified staff and appropriate resources are two main reasons for this difficulty. The government policy document, Iaith Pawb (NAW, 2003), has an aim to increase the amount of Welsh language provision post-16 and in the university sector. Welsh medium provision is less available in further and technical education, and in the sciences, and more available in the arts and humanities university departments.

(Laugharne, 2007:213)

Cyfeiria Laugharne (2007) at waith ymchwil Baker (1992) ar wahanol agweddau at iaith ac at un ffactor yn benodol, sef agwedd yr oedran 11–16 at yr iaith Gymraeg yn wyneb dylanwad diwylliant poblogaidd arnynt. Dywed Baker (1992):

Whether a minority language lives or dies may be about its ability to give a life-saving injection to the culture of teenagers.

(Baker, 1992: 137)

Ynghlwm wrth agweddau pobl ifanc at yr iaith Gymraeg mae'r awydd i astudio trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg, dewis gyrfa a gwaith lle defnyddir yr iaith Gymraeg, a galw am ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg ym meysydd Addysg Uwch a byd gwaith yn gyffredinol yng Nghymru.

Fel rhan o astudiaeth ehangach, ymchwiliwyd yn ddiweddar i'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ddisgyblion Blwyddyn 13 yn eu dewis o addysg Uwch.(Jones, i'w gyhoeddi). Nodir ganddi sylwadau Young (2005) am dargedau LICC i

gynyddu nifer y myfyrwyr cyfrwng Cymraeg mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru:

Young (2005) estimated if this was to be achieved, the higher education sector in Wales would need 11,496 students to follow some aspect of their course through the medium of Welsh by 2010-11. Realistically, numbers across every subject and institution would have to be substantially increased, hence the need for urgent investment in Welsh medium higher education if this target is to be realised. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Wrth holi disgyblion Cymraeg am eu defnydd tebygol o'r Gymraeg yn eu gyrfaoedd arfaethedig fel rhan o'r ymchwil, canfyddir y canrannau canlynol:

When the respondents were asked whether they believed they would make use of Welsh in their future career, 62 per cent said they were certain, 8 per cent gave a negative response, 25 per cent were uncertain. A further 6 per cent did not respond. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Cyfeirir at ddata sydd yn dangos awydd disgyblion i astudio eu dewis bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg:

... where subject choice was available in Welsh, over half the learners were more likely to follow their degree through the medium of Welsh, for example, Welsh, education, sociology, childhood studies. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Dengys tystiolaeth y cyfweiliadau a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil, yr awydd i ehangu'r dewis o bynciau sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws y sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru, ac ychwanegir am addysg cyfrwng Cymraeg:

In addition learners wanted to see more variation and the extension of Welsh medium courses, Secondly, a number of students were of the opinion that financial incentives should be offered to attract more students to follow Welsh medium courses, since they would be able to offer a bilingual service to employers once they had graduated. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Cymharwyd profiadau myfyrwyr yn eu blwyddyn gyntaf o Addysg Uwch yng Nghymru. Astudiai rhai trwy gyfrwng y Saesneg neu'n ddwyieithog a rhai trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan drafodwyd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

gyda'r rhai a astudiai trwy gyfrwng y Saesneg, naill ai yn gyfan gwbl neu'n bennaf, cafwyd gwahaniaethau yn y ddarpariaeth a gynigir i fyfyrwyr gan y gwahanol brifysgolion yng Nghymru. Dywedir am Brifysgol Caerdydd:

The language dimension was not a high priority amongst the learners choosing to study at Cardiff University. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Tra'n cydnabod prinder pynciau cyfrwng Cymraeg yno, dywed Jones (Heb ei gyhoeddi) fod agwedd rhai adrannau o fewn y brifysgol ei hun yn dylanwadu ar agweddau'r myfyrwyr :

Even with limited Welsh medium provision Twm and Anwen's narrative indicated their reluctance to follow modules through the medium of Welsh. The culture within their individual departments did not foster or promote the advantages of Welsh medium delivery. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Ceir darlun gwahanol am Brifysgol Bangor:

On the other hand the learners who had chosen Bangor University were more likely to study a couple of modules through the medium of Welsh when they were available. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Pan drafodir cyfrwng iaith y myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, dywedir:

The support for Welsh medium higher education appealed across the social class spectrum. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Nodir am fyfyrwyr y grŵp hwn:

Their narratives indicated their long term support for Welsh education because they had received an excellent education from enthusiastic teachers ... Progressing to Welsh medium higher education was a natural step for them, although all were first generation higher education. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Wrth dynnu casgliadau ar ddiwedd yr erthygl, dywed Jones (Heb ei gyhoeddi) fod dau brif ffactor yn y broses o ddewis addysg uwch i'r myfyrwyr: "the status and enjoyment of degree subject and subject choice progression in

Welsh” a statws a lleoliad y brifysgol. Cyfeiria at ffactorau eraill megis gyrfa, bywyd cymdeithasol, yr iaith Gymraeg, diwylliant Cymraeg a chymuned Gymraeg. Terfynir drwy sôn am y diffyg darpariaeth gyfrwng Cymraeg:

Other factors such as the lack of provision within Welsh medium higher education needs to be addressed before any substantial increase in the Welsh Assembly government target is to be achieved.... There is an urgent need to safeguard the current availability of Welsh medium provision in addition to the development of new priority subjects, paralleling the commitment of higher education universities in Wales as they increasingly position and market themselves internationally. (Jones, Heb ei gyhoeddi)

Cyfeiria Jones (Heb ei gyhoeddi) at adroddiad Wavehill Consulting (2008: 7) a ganfu, tra medrai myfyrwyr cyfrwng-Cymraeg weld manteision dwyieithrwydd o fewn byd gwaith, lleiafrif bach ohonynt a deimlai'r awydd i astudio eu pwnc gradd trwy gyfrwng y Gymraeg. Ymddengys, felly, fod y gagendor rhwng dymuniad LICC i gynyddu'r ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg a'r galw a ddaw o du'r disgyblion/ myfyrwyr eu hunain yn fawr.

Ym Medi 2006, cyhoeddwyd adroddiad gan asiantaeth Dysg ar agweddau myfyrwyr ôl-16 at Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg (Lewis a Williams, 2006). Cyfeiria'r adroddiad at ddyhead Iaith Pawb (LICC, 2003) i gynyddu siaradwyr a'u defnydd o'r Gymraeg tra ymatebodd disgyblion i gwestiynau'n ymwneud â chyfrwng iaith fel isod:

Er gwaethaf bod 32% o'r myfyrwyr a ddymunai astudio yng Nghymru yn mynegi dymuniad i weithio o leiaf yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg yn ddiweddarach, gellir amau effeithiolrwydd neges ieithyddol "Iaith Pawb" pan welir 48% yn dymuno gweithio trwy'r Saesneg yn bennaf. Cwyd hynny gwestiwn ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am wasgaru'r neges ymhlith ein hieuenctid. (Lewis & Williams, 2006: 33)

Gwna Lewis a Williams (2006) ddeuddeg o argymhellion gan gynnwys rhai sydd yn cyfeirio at ddogfen Iaith Pawb (LICC, 2003) a dyhead ieithyddol

Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yn ôl Argymhelliad Rhif 1 ymddengys fod gagendor rhwng ymrwymiad heriol geiriau Iaith Pawb a'r hyn sy'n digwydd yn yr ysgolion ar lawr y dosbarth.

Awgrymir bod yr arolwg yn arwain at amryw gwestiynau pellach mewn perthynas ag agwedd myfyrwyr cyrsiau ôl-16 at Addysg Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg sydd, efallai, ynghlwm â'u profiadau ieithyddol a darpariaethol blaenorol. Efallai bod hynny hefyd yn ymwneud â'r cyd-destun a'r hinsawdd ieithyddol-wleidyddol cyfredol y maent yn bodoli ynddo heb ymwybyddiaeth o'r strategaethau a'r cynllunio ieithyddol presennol sydd ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a amlinellir yn Iaith Pawb. Argymhellir, felly, ymchwil pellach a dyfnach i rai agweddau a drafodwyd yn yr arolwg presennol. (Lewis & Williams, 2006:35)

Yn Argymhelliad Rhif 2, codir mater marchnata effeithiol gogyfer â sicrhau trosglwyddo gwybodaeth am ddwyieithrwydd ac am fanteision addysg

Gymraeg a dwyieithog:

Argymhellir hefyd bod neges "Iaith Pawb" (LICC, 2003) yn cyrraedd llawr y dosbarth o fewn ac ar draws ein hysgolion. Gan dderbyn na fydd brwdfrydedd pob un a all ddylanwadu ar fyfyrwyr ôl-16 ac ar ddisgyblion 11-16 (gan gynnwys penaethiaid ysgol) gymaint â'i gilydd, awgrymir y dylai hynny gael ei atgyfnerthu'n allanol yn ogystal, gan gynnwys drwy gyfrwng cyhoeddusrwydd a marchnata dygn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei hun. (Lewis & Williams, 2006:35)

Yn Argymhelliad Rhif 3, cyfeirir at ddilema ymarferol ysgolion Cymraeg traddodiadol lle addysgir trwy gyfrwng mwy nag un iaith o fewn gwersi, gyda'r dysgu cyfrwng Cymraeg yn dioddef o ganlyniad:

"Argymhellir archwiliad o argaeledd dilyniant darpariaeth cyrsiau cyfrwng-Cymraeg o Gyfnod Allweddol 4 i'r sector ôl-16, yn enwedig mewn ysgolion Cymraeg traddodiadol lle, yn ôl tystiolaeth, gall y rheidrwydd i ddarparu cyrsiau cyfrwng-Saesneg yn ogystal ar gyfer disgyblion di-Gymraeg orfodi'r gweddill Cymraeg eu hiaith i dderbyn darpariaeth "eilradd" ar brydiau."(Lewis & Williams, 2006:35)

Yn Argymhelliad Rhif 4, nodir lle a rhan allweddol Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith (Work Related Education) yn yr ysgolion ac, ymhellach, y Cyngor Gyrfaol ar hyfforddiant, cyrsiau, swyddi a gyrfaoedd a roddir i ddisgyblion:

Dylid sicrhau bod rhesymwaith “Iaith Pawb”(LICC, 2003) yn tanlinellu’r cyngor a’r cyfarwyddyd galwedigaethol a roddir i ddisgyblion gan swyddogion Gyrfau Cymru o Gyfnod Allweddol 4 ymlaen. (Lewis & Williams, 2006:35)

Gwelir perthnasedd testun ymchwil yr astudiaeth bresennol wrth fesur y galw am addysg ôl-16 cyfrwng Cymraeg ymhlith disgyblion Blwyddyn 11 sydd yn astudio’r Gymraeg fel iaith gyntaf a’u cynlluniau gogyfer â’u hastudiaethau neu eu hyfforddiant y flwyddyn ddilynol.

Hefyd, yn berthnasol i’r ymchwil hwn, cyhoeddwyd astudiaeth (Jones, 1995) am gyfraniad y sector addysg i adfer a chynnal y Gymraeg. Edrycha ar gefndir disgyblion mewn ysgolion dwyieithog, sef ysgolion Cymraeg traddodiadol ac ysgolion Cymraeg penodedig, ac ar ddefnydd y disgyblion o’r Gymraeg o fewn a thu allan i’r ysgol. Rhanna’r astudiaeth yn dair rhan: iaith gymdeithasol y disgyblion, iaith y disgyblion o fewn eu gwersi a dulliau all-gyrsiol o hyrwyddo datblygiad ieithyddol. Noda:

Schools can be reasonably expected to equip their pupils with the ability to use a language for the purposes of the curriculum, but away from the curriculum, the school can have only an indirect influence. (Jones, 1995:105)

Gwelir, felly, bod cysylltiad rhwng deilliannau ieithyddol yr ysgol, pryd y medrid sicrhau profiadau addysgol ac ieithyddol yn y Gymraeg i’r disgyblion gan yr ysgol, a’r traw-effaith sosio-ieithyddol, yn y gymdeithas y tu allan i’r ysgol.

Language maintenance and restoration cannot rely on education alone. The achievement of such goals must involve a partnership of schools, families and the wider society. Schools are doing their bit. We have now reached a point where other partners in this process must lend a helping hand. (Jones, 1995:105)

METHODOLEG

Yng ngoleuni dymuniad Llywodraeth Cynulliad Cymru (a) i sicrhau cynnydd o 5% yn nifer siaradwyr y Gymraeg erbyn 2011 (LICC, 2003) a (b), i gynyddu'r ddarpariaeth a'r galw am addysg uwch Gymraeg/ ddwyieithog o 7% erbyn 2010 (LICC, 2006),(megis yr ategwyd yn ddiweddarach yn y ddogfen ymgynghorol Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (LICC, 2009)), cynhaliwyd astudiaeth o awydd disgyblion ym Mlwyddyn 11 o fewn un awdurdod addysg lleol, sef Ceredigion, i astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn y cyfnod ôl-16 ar sail eu hastudiaeth o'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghyfnod Allweddol 4.

O fewn yr awdurdod addysg a ddewiswyd ceir 7 ysgol uwchradd, gyda phob un ohonynt yn cynnig y rhaglen astudio Cymraeg hyd at lefel arholiad TGAU ac at Safon Uwch. O'r 7 ysgol hynny, 6 ohonynt sydd yn cynnig addysgu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, sef dwy ysgol Gymraeg benodedig a phedair ysgol Gymraeg draddodiadol. Er i'r chwe ysgol dderbyn gwahoddiad yn wreiddiol i gymryd rhan yn yr ymchwil fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau anffodus megis arolygiad gan Estyn a chau rhai ysgolion oherwydd tywydd garw, cyfyngwyd yr ymchwil i dair ysgol yn unig. Er hynny, sicrhawyd bod y tair yn gynrychioliadol o'r chwe ysgol o safbwynt cyfrwng ieithyddol. Dewiswyd un o'r ddwy ysgol Gymraeg benodedig a dwy o'r pedair ysgol Gymraeg draddodiadol.

Cyfyngwyd yr astudiaeth i'r disgyblion a oedd ar fin gorffen cyfnod addysg uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg, sef disgyblion Blwyddyn 11 ymhob achos, er mwyn asesu'r galw am ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg yn y cyfnod ôl-16. Yn hytrach na dewis sampl o'r disgyblion hynny, megis sampl haenedig, er enghraifft, gan fod y niferoedd yn gymharol isel ac er mwyn cryfhau dilysrwydd a dibynadwyedd y data, penderfynwyd cynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 11 a astudiai'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar draws y tair ysgol. Roedd y cyfanswm posibl ym mhob ysgol, felly, fel a ganlyn:

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan: 32

Ysgol Uwchradd Tregaron: 24

Ysgol Gyfun Penweddig: 91

Nifer yr holiaduron a ddychwelwyd oedd:

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan: 31 allan o 32 = 96%

Ysgol Uwchradd Tregaron: 24 allan o 24 = 100%

Ysgol Gyfun Penweddig: 80 allan o 91 = 87%

Gwelir bod y ganran yn uchel ym mhob achos.

Gan ddilyn canllawiau moesegol cydnabyddedig y British Educational Research Association (BERA) a gyhoeddir yn y ddogfen Revised Ethical Guidelines for Educational Research (2004), cysylltwyd â swyddogion Cyngor Sir Ceredigion a chafwyd caniatâd yr awdurdod addysg lleol, penaethiaid yr ysgolion a Chadeirydd corff llywodraethol pob ysgol a ddefnyddiwyd yn y sampl. Yn ogystal â hynny, gyda chymorth yr ysgolion, llythyrwyd pob rhiant/gwarcheidwad am yr astudiaeth ymlaen llaw er mwyn esbonio natur yr

ymchwil a lleddfu unrhyw ofidiau posibl yn ogystal â phwysleisio cyfrinachedd yr ymchwil ynghyd ag anhysbysrwydd y disgyblion.

Ystyriwyd y tri “thraddodiad” o weithredu neu o fethodoleg ymchwil at ddibenion cynnal yr astudiaeth: yr ethnograffaid, yr arbrofol a’r arolwg. Yn hytrach na defnyddio’r dull ethnograffaid, a olygai arsylwi manwl dros gyfnod hir a’r dull arbrofol (sef dewis grŵp arbrofol a grŵp rheoledig i’w cymharu) nad ystyrir yn gymwys ar gyfer y gwyddorau cymdeithasol, y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer yr ymchwil dan sylw oedd y dull arolwg am ei fod yn ateb gofynion ymarferol yr ymchwil yn well na’r ddau ddull arall. O fewn “traddodiad” ymchwil arolygol, yr holiadur a’r cyfweliad yw’r fethodoleg arferol a fabwysiedir ar gyfer cynnal ymchwil.

Yr holiadur

Cynlluniwyd yr holiadur (Atodiad Rhif 1) ar sail egwyddor sylfaenol sicrhau cymharedd ymatebion, sef y dylai pob cwestiwn olygu’r un peth yn union i bob unigolyn. Er yr ystyrir yr holiadur a weinyddir gan gyfwelydd yn rhagorach na’r holiadur hunan-gwblhau, a hynny ar sail cywirdeb a maint y dychweliad, ystyrir yr holiadur hunangwblhau’n rhatach i’w gynnal a’i weithredu. Mabwysiadwyd yr holiadur hunangwblhau, felly, oherwydd gofynion ariannol, amser ac oedran y cyfranogwyr, sef disgyblion 15 - 16 mlwydd oed.

Mantais yr holiadur fel dull ymchwilio yw ei fod yn ffordd effeithiol a chyflym o gwmpasu nifer fawr o bobl a chael ateb i amrediad o gwestiynau mewn

amser byr. Ar gyfer gweithredu'r holiadur nid oedd angen mynd i gost uchel o ran adnoddau ariannol, amser na dynol. Fe'i dosbarthwyd i bob ysgol a gofynnwyd i aelod o'r tîm uwch-reolaethol ym mhob sefydliad fod yn gyfrifol am ei weinyddu. Ym mhob achos, penderfynwyd y byddai'r disgyblion yn llenwi'r holiaduron o dan amodau ffurfiol ac o dan oruchwyliaeth athro mewn dosbarth heb yr hawl i ymgynghori â neb arall er mwyn osgoi'r duedd i unigolion ddylanwadu ar atebion ei gilydd.

Peilotwyd yr holiadur yn gyntaf cyn ei ddsbarthu. Cred Youngman (1978) fod peilota'n rhan annatod o bob ymchwil a bod hynny yr un mor bwysig yn achos yr holiadur ag y mae yn achos pob dull arall o gasglu data er mwyn asesu'r cwestiynau a'r cyfarwyddiadau, a chan gael gwared ymlaen llaw ar unrhyw amwysedd neu anawsterau semantegol er mwyn hwyluso'r dadansoddi yn ddiweddarach. Defnyddiwyd un ysgol at y pwrpas hwn a chafwyd sylwadau manwl yn yr adborth gan y sawl a fu'n arolygu'r sesiwn am amwysedd geiriad cwestiwn ar sgiliau allweddol, am ddiffyg cyfeiriad at gefndir ieithyddol yn y cartref, ac am newid mewn cyfrwng dysgu. Ar sail y sylwadau hynny, addaswyd geiriad yr holiadur cyn ei gyflwyno i'r tair ysgol. Wedi sicrhau caniatâd yr Awdurdod Addysg, y Penaethiaid, Cadeiryddion y byrddau llywodraethol a'r rhieni, gwnaethpwyd trefniadau gogyfer â chynnal y sesiynau i gwblhau'r holiaduron yn yr ysgolion.

Y cyfweiliadau

Yn dilyn gweinyddu'r holiadur, penderfynwyd cynnal cyfweiliadau i archwilio'n fanylach unrhyw faterion allweddol a oedd wedi codi o ddata'r

holiaduron. Yn hytrach na chynnal cyfweiliadau gyda sampl o'r disgyblion ar draws y tair ysgol, penderfynwyd cyf-weld â swyddogion a ystyriwyd yn berthnasol i faes yr ymchwil er mwyn cael eu barn a'u canfyddiadau o'r sefyllfa bresennol. O ddewis rhwng ffurf cyfweiliad strwythuredig, hanner-strwythuredig ac anstrwythuredig, penderfynwyd mabwysiadu'r ffurf hanner-strwythuredig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y cwestiynau ar y naill law ond gan ganiatáu elfen o hyblygrwydd i unigolion ymhelaethu a chynnig persbectif a chanfyddiad personol ar agweddau amrywiol ar y llaw arall. Dewiswyd, felly, athrawon o fewn y tair ysgol â chyfrifoldeb dros Addysg sy'n Gysylltiedig â Gwaith a chynrychiolwyr y cwmni Gyrfa Cymru (Gorllewin Cymru) a ymwelai ag ysgolion yr astudiaeth i roi cyngor i ddisgyblion yng Nghyfnodau Allweddol 4 a 5 ynglŷn â dewis gyrfa. Yn sgil ymatebion y disgyblion i rai cwestiynau ar yr holiadur, trafodwyd materion yn ymwneud ag ymwybyddiaeth a gwybodaeth am gyrsiau neu hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg. Defnyddiwyd yr un set o gwestiynau ar gyfer cynrychiolwyr y tair ysgol a'r cwmni gyrfaol (Atodiad 2).

DADANSODDIAD Y DATA


Rhannwyd yr holiadur yn dair adran, sef:

1. Adran A yn ymwneud â chefnidir ieithyddol y disgyblion
2. Adran B yn ymwneud ag agweddau cwricwlaidd a chynlluniau gyrfaol y disgyblion yn ogystal â'u hagwedd at yr iaith Gymraeg
3. Adran C ar gyfer sylwadau penagored y disgyblion.

Adran A

Cafwyd 6 chwestiwn yn Adran A a ganolbwyntiai ar gefndir ieithyddol y disgyblion a'u defnydd o'r Gymraeg y tu mewn a thu allan i'r ysgol. Mewn ymateb i Gwestiwn 1 am eu cefndir ieithyddol, maentumiai 78% o blant Llanbedr Pont Steffan, 84% o blant Tregaron a 66% o blant Penweddig fod yr iaith Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, fel y gwelir yn Nhabl 5:


Tabl 5: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r sylw mai Cymraeg oedd eu hiaith gyntaf



Dengys Tabl 6 ymatebion disgyblion y tair ysgol i'r modd y dysgwyd y Gymraeg yn bennaf iddynt. Gwelir bod 45% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanbedr yn dweud iddynt ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn bennaf a 55% yn

dweud nad yn yr ysgol y dysgasant y Gymraeg. Ceir 50% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron yn dweud iddynt ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn bennaf a 50% yn dweud nad yn yr ysgol y bu iddynt ddysgu'r Gymraeg yn bennaf. Gwelir mai yn Ysgol Penweddig y ceir y ganran uchaf o'r disgyblion a ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol yn bennaf, sef 75%.

Tabl 6: Sut y dysgwyd y Gymraeg gan ddisgyblion y tair ysgol – ai yn yr ysgol yn bennaf




Gwelir gwahaniaethau arwyddocaol rhwng ystadegau Tabl 5 a Thabl 6.

Maentumiai 78% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr fod y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, gyda 45% ohonynt wedi dysgu'r Gymraeg yn yr ysgol a 55% y tu allan i'r ysgol. Cafwyd 84% o ddisgyblion Ysgol Tregaron yn dweud bod y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt, gyda 50% wedi dysgu'r iaith yn yr ysgol yn bennaf a 50% y tu allan i'r ysgol. Gwelir yr un patrwm, felly, yn y ddwy ysgol Gymraeg draddodiadol a chredir i'r 55% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr a'r 50% o ddisgyblion Ysgol Tregaron, na ddysgodd y Gymraeg yn yr ysgol, gaffael yr iaith yn y cartref ac yn y gymdeithas yn hytrach na'i dysgu trwy gyfrwng gweithgareddau megis Cylch Ti a Fi, yr Ysgol Sul ac ati. Gwelir

patrwm gwahanol yn yr ysgol Gymraeg benodedig: 66% yn dweud mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf er i 75% ei dysgu yn yr ysgol.


Gyda Chwestiwn 3, cafwyd ymatebion amrywiol parthed defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y teulu, fel y gwelir yn Nhablau 7-9, gyda 42% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 66% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 38% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gydag aelodau'r teulu.

Tabl 7: Defnydd disgyblion Ysgol Llanbedr o'r Gymraeg o fewn y cyddestun teuluol



Dengys Tabl 7 fod 42% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr yn defnyddio'r Gymraeg yn unig o fewn y teulu a 26% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg.


Tabl 8: Defnydd disgyblion Ysgol Tregaron o'r Gymraeg o fewn y cyd-destun teuluol



Dengys Tabl 8 fod 66% o ddisgyblion Ysgol Uwchradd Tregaron yn defnyddio'r Gymraeg yn unig o fewn y teulu a 17% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg.


Dengys Tabl 9 fod 40% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn defnyddio'r Gymraeg yn unig o fewn y teulu a 19% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg. Dyna'r ganran isaf o blith ystadegau'r tair ysgol sydd yn cadarnhau'r ffaith mai yn yr ysgol y dywedodd y ganran uchaf o blith y tair ysgol, 75%, iddynt ddysgu'r Gymraeg yn bennaf (gweler Tabl 6).

Tabl 9: Defnydd disgyblion Ysgol Penweddig o'r Gymraeg o fewn y cyd-destun teuluol




O safbwynt yr ateb i Gwestiwn 4 a ymwnâi â'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gwersi ffurfiol, ceir patrymau gwahanol pendant yn achos y tair ysgol, fel y gwelir yn Nhablau 10-12:

Tabl 10: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr o fewn eu gwersi ysgol



Defnyddid y Gymraeg yn unig o fewn eu gwersi gan ond 48% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn Ysgol Llanbedr ac fe'i defnyddid ar y cyd â'r Saesneg gan 26% o'r disgyblion.


Tabl 11: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron o fewn eu gwersi



Gwelir mai ond 38% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron a ddefnyddiai'r Gymraeg yn unig o fewn eu gwersi a bod 42% yn ei defnyddio

ar y cyd â'r Saesneg. Nodir bod lefel y defnydd o'r Gymraeg gan ddisgyblion Blwyddyn 11 yr ysgol hon o fewn eu gwersi yn sylweddol is na'r ganran a ddefnyddiai'r Gymraeg yn unig gyda'u teuluoedd, sef 66% (gweler Tabl 8). Ymddengys, felly, y gallai hynny adlewyrchu'r ffaith yr addysgir nifer o'r gwersi'n "ddwyieithog", sef trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr un dosbarth, yn hytrach na thrwy gyfrwng y Gymraeg yn unig ac mai hynny oedd i gyfrif am ganran uchel y Saesneg o fewn eu gwersi.


Tabl 12: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig o fewn eu gwersi



Gwelir mai ond 39% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a ddefnyddiai'r Gymraeg yn unig o fewn eu gwersi a bod 27% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg. Nodir mai yn Ysgol Penweddig y cafwyd y ganran uchaf o ddefnyddio'r Saesneg yn unig (34%) yn ystod gwersi, er mai ysgol Gymraeg benodedig oedd honno. Yn yr ysgol honno hefyd y cafwyd y ganran uchaf o ddisgyblion a ddeuai o gartrefi di-Gymraeg.


Wrth holi disgyblion Blwyddyn 11 ar draws y tair ysgol am eu defnydd o'r Gymraeg y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol, cafwyd y canlyniadau canlynol (Tablau 13-15).

Tabl 13: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol



Gwelir bod 45% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr yn defnyddio'r Gymraeg yn unig y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol a 25% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg, tra o fewn y gwersi cafwyd 48% yn defnyddio'r Gymraeg yn unig a 26% yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg ar y cyd (gweler Tabl 10).


Tabl 14: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol



Yn Ysgol Tregaron, gwelir bod 50% o ddisgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn unig y tu allan i'w gwersi a 21% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg.

Roedd hyn yn gynydd ar y defnydd a wneid o'r Gymraeg yn unig o fewn gwersi, sef 38% (gweler Tabl 11). Ymddengys y gallai eu gweithgarwch o fewn eu gwersi fod yn fwy "dwyieithog" nag o'r tu allan iddynt. Gellir tybio efallai y byddent yn fwy tueddol i siarad Cymraeg â'u ffrindiau fel dewis cyntaf y tu allan i'w gwersi.


Tabl 15: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol



Gwelir mai dim ond 36% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig a ddefnyddiai'r Gymraeg yn unig y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol a 23% ohonynt ar y cyd â'r Saesneg. Yn Ysgol Penweddig, felly, y cafwyd y ganran uchaf o ddisgyblion Blwyddyn 11 oedd yn defnyddio'r Saesneg yn unig y tu allan i'w gwersi yn yr ysgol, sef 41%.


Yng Nghwestiwn 6, pan holwyd disgyblion y tair ysgol am y defnydd a wneid ganddynt o'r Gymraeg wrth gymdeithasu â ffrindiau y tu allan i'r ysgol, cafwyd y canlyniadau canlynol (Tablau 16–18):

Tabl 16: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr wrth gymdeithasu â ffrindiau




Gwelir bod 45% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr yn defnyddio'r Gymraeg yn unig wrth gymdeithasu â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol a 23% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg. Cafwyd canrannau tebyg gan ddisgyblion yr ysgol yn eu defnydd o'r Gymraeg (gweler Tabl 10) o fewn eu gwersi a thu allan i'w gwersi yn yr ysgol (gweler Tabl 14).

Tabl 17: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron wrth gymdeithasu â ffrindiau



Gwelir bod 41% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron yn defnyddio'r Gymraeg yn unig wrth gymdeithasu â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol a 38% yn ei defnyddio ar y cyd â'r Saesneg.

Tabl 18: Yr iaith a ddefnyddid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig wrth gymdeithasu â ffrindiau



Gwelir mai ond 33% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig a ddefnyddiai'r Gymraeg yn unig wrth gymdeithasu â'u ffrindiau y tu allan i'r ysgol.

Gwelwyd bod lleihad yn y defnydd o'r Gymraeg a chynnydd yn y defnydd o'r Saesneg gan ddisgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol wrth iddynt gymdeithasu y tu allan i oriau'r ysgol. Wrth grynhoi cefndir a thueddiadau ieithyddol disgyblion y tair ysgol, felly, ceir patrwm pendant o leihad yn y defnydd o'r Gymraeg yn ymffurfio ar draws y tair ysgol. Chwaraeai'r Gymraeg ran gynyddol lai a'r Saesneg ran gynyddol fwy yn eu bywydau bob dydd: patrwm cyfarwydd i'r ysgolion Cymraeg (Jones, 1995).

Tabl 19: Crynodeb o ymatebion disgyblion y tair ysgol i'r cwestiynau am eu cefndir ieithyddol a'u defnydd o'r Gymraeg yn bennaf

Gosodiadau	Ysg.Llanbedr		Ysg.Tregaron		Ysg.Penweddig	
	Nifer /31	%	Nifer /24	%	Nifer /80	%
Siarad Cymraeg:						
1. Cymraeg iaith gyntaf	24	78	20	84	53	66
2. Dysgu yn yr ysgol	14	45	12	50	59	75
3. Siarad gyda'r teulu	13	42	16	66	32	40
4. Yn y gwersi	15	48	9	38	31	39
5. Tu allan i'r gwersi	14	45	12	50	29	39
6. Tu allan i'r ysgol	14	45	10	41	29	36

Er bod niferoedd a chanrannau'r disgyblion yn y tair ysgol yn gymharol uchel pan ofynnwyd yng Nghwestiwn 1 a oedd y Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt (78% yn Ysgol Llanbedr, 84% yn Ysgol Tregaron a 66% yn Ysgol Penweddig), gwelir yn glir bod lleihad cyson, nid ansylweddol, yn niferoedd disgyblion y tair ysgol parthed defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gyda'u ffrindiau o fewn eu gwersi, yn yr ysgol y tu allan i'w gwersi a thu allan i'r ysgol. Maentumir bod lle i gynnal ymchwil pellach felly i ystyried y defnydd a wneir o'r Gymraeg gan ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf mewn gwahanol gyd-destunau o fewn a thu allan i'r ysgol.

Adran B

Seiliwyd Adran B yr holiadur ar gwestiynau'n ymwneud ag agweddau cwricwlaidd a gyrfaol. Mewn ymateb i Gwestiwn 1 am nifer y pynciau a astudid trwy gyfrwng y Gymraeg gan ddisgyblion unigol ym Mlwyddyn 11 yn y tair ysgol, cafwyd y data canlynol:

Tabl 20: Nifer y pynciau cyfrwng Cymraeg a astudid gan ddisgyblion Blwyddyn 11 yn y tair ysgol

Nifer y pynciau	Nifer disgyblion Ysgol Llanbedr	Nifer disgyblion Ysgol Tregaron	Nifer disgyblion Ysgol Penweddig
1 pwnc	6	8	0
2 bwnc	10	5	0
3 phwnc	4	5	1
4 pwnc	4	0	2
5 pwnc	6	5	7
6 pwnc	0	1	18
7 pwnc	0	0	26
8 pwnc	0	0	20
9 pwnc	1	0	6
10 pwnc	0	0	0
Cyfanswm	31	24	80

Gwelir bod 30 disgybl allan o'r 31 yn y sampl yn Ysgol Llanbedr yn honni iddynt astudio 5 pwnc neu lai trwy gyfrwng y Gymraeg. Un disgybl a honnai ei fod yn astudio 9. Ymddengys fod tua 50% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr ond yn astudio un neu ddau bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg er i 23% o ddisgyblion yr ysgol honno astudio tri neu bedwar pwnc. Honnai 23 o'r sampl o 24 yn Ysgol Tregaron iddynt astudio 5 pwnc neu lai trwy gyfrwng y Gymraeg. Un disgybl yn unig (3%) a astudiai chwe phwnc ac ni chafwyd neb yn astudio mwy na hynny. Gwelir mai 10 disgybl yn unig allan o'r 80 yn y sampl a astudiai 5 pwnc neu lai trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Penweddig, gydag ond un disgybl yn astudio 3 phwnc yn unig. Astudiai 88% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yr ysgol chwech neu fwy o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn ôl y data a gasglwyd yng Nghwestiwn 2 drwy holi am nifer y pynciau a astudid trwy gyfrwng y Gymraeg, ymddengys yr addysgid 11 o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Llanbedr, 13 o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Tregaron ac 16 o bynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Penweddig. Dangosir isod y pynciau a nodwyd gan y disgyblion a'r nifer a'u hastudiai:

Tabl 21: Nifer y disgyblion a astudiai bob pwnc cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Llanbedr

Pwnc	Nifer y disgyblion
Mathemateg	21
Gwyddoniaeth	3
Daearyddiaeth	10
Hanes	15
Celf	2
Dylunio a Thechnoleg	1
Ffrangeg	10
Sbaeneg	7
Addysg Gorfforol	6
TG/ cyfrifiaduron	3
Datbygiad plant	1

Yn Ysgol Llanbedr, achosai niferoedd isel mewn rhai pynciau, e.e. dau ddisgybl yn astudio Celf trwy gyfrwng y Gymraeg, i'r disgyblion gael eu haddysgu ar y cyd â'r Saesneg yn hytrach na thrwy gyfrwng y Gymraeg yn unig, gan na fyddai modd cynnal dosbarth ar gyfer dau ddisgybl yn unig.

Mewn cyfweiliad â Dirprwy yn yr ysgol, datgelwyd mai dau bwnc yn unig, sef Hanes a Daearyddiaeth, a addysgid ar wahân trwy gyfrwng y Gymraeg, gyda'r disgyblion yn sefyll papurau arholiad TGAU cyfrwng Cymraeg. Ni chaniatâi niferoedd y disgyblion i'r ysgol fedru trefnu dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar wahân yn y pynciau eraill. Fodd bynnag, addysgid pob pwnc arall trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o fewn yr un dosbarth, heblaw am Saesneg. Tra nodai'r ysgol fod y profiad dwyieithog o fudd i'r disgyblion Cymraeg ail

iaith i atgyfnerthu eu hiaith, ar y llaw arall, pryderai am effaith y dull hwn ar y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf.

Tabl 22: Nifer y disgyblion ym mhob pwnc cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Tregaron

Pwnc	Nifer y disgyblion
Mathemateg	10
Daearyddiaeth	1
Hanes	6
Addysg Grefyddol	7
Celf	6
Cerddoriaeth	3
Drama	6
Dylunio a Thechnoleg	5
Ffrangeg	2
Addysg Gorfforol	1
Arlwyo/ coginio	6
Amaeth	6
Iechyd a Gofal	1

Yn Ysgol Tregaron, un pwnc yn unig, sef Hanes, a addysgid trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân, gyda'r disgyblion yn sefyll papurau TGAU cyfrwng-Cymraeg. Nodwyd eto mewn cyfweliad â Dirprwy'r ysgol na ddarperid dosbarthiadau cyfrwng-Cymraeg ar wahân am nad oedd y niferoedd yn caniatáu hynny. Addysgid yn “ddwyieithog”, sef trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyd â'r Saesneg yn yr un dosbarth ym mhob pwnc arall heblaw am Saesneg, Sbaeneg ac adran y Deunyddiau Gwthiannol o fewn y cwrs Dylunio a Thechnoleg pryd yr addysgid trwy gyfrwng y Saesneg yn unig. Ni ddisgwylid cysondeb ieithyddol ar draws y pynciau gan yr ysgol. Ymfalchiai'r ysgol yn yr elfen ddwyieithog o fewn y gwersi gan ei bod yn cryfhau safon Cymraeg y disgyblion ail iaith ond, ar y llaw arall, pryderai am y diffyg cyfleoedd ar gyfer datblygu'r ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg yng Nghyfnod Allweddol 4 er mwyn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg a fu yng Nghyfnod

Allweddol 3. Pryderai hefyd am effaith y dull hwn ar hyfedredd ieithyddol y siaradwyr Cymraeg.

Tabl 23: Nifer y disgyblion ym mhob pwnc cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Penweddig

Pwnc	Nifer y disgyblion
Mathemateg	37
Gwyddoniaeth	35
Daearyddiaeth	17
Hanes	13
Addysg Grefyddol	18
Celf	21
Cerddoriaeth	6
Drama	8
Dylunio a Thechnoleg	15
Ffrangeg	22
Almaeneg	4
Addysg Gorfforol	32
Busnes	13
TG/ cyfrifiaduron	40
Datbygiad plant	3
Peirianeg	1

Addysgid 16 o bynciau TGAU trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn Ysgol Gyfun Penweddig gyda'r disgyblion yn sefyll papurau arholiad TGAU cyfrwng Cymraeg. Dengys Tabl 25 fod 37 allan o 80 o ddisgyblion Blwyddyn 11 y sampl yn astudio Mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg a 35 allan o 80 o ddisgyblion yn astudio Gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy gyfrwng y Saesneg yr astudiai pob disgybl arall y pynciau craidd hyn gan fod polisi cyfredol yr ysgol yn caniatáu hynny.

Er nodi nad oedd disgyblion yr un ysgol wedi derbyn gwybodaeth am y dewisiadau a fyddai ar gael iddynt ym Mlwyddyn 12 adeg cwblhau'r holiaduron, pan holwyd (Cwestiwn 3) disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol

am eu dewisiadau gogyfer ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 12 ac 13, cafwyd yr ymatebion canlynol:

Tabl 24: Dewis disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol o bynciau cyfrwng Cymraeg ym Mlwyddyn 12

Pwnc	Nifer disgyblion Ysgol Llanbedr	Nifer disgyblion Ysgol Tregaron	Nifer disgyblion Ysgol Penweddig
Mathemateg	3	2	12
Gwyddoniaeth	0	0	9
Daearyddiaeth	3	0	1
Hanes	5	1	2
Addysg Grefyddol	1	1	3
Celf	0	1	5
Cerddoriaeth	0	2	3
Drama	1	1	5
Dylunio a Thechnoleg	2	0	8
Ffrangeg	0	1	7
Almaeneg	4	0	0
Sbaeneg	1	0	0
Addysg Gorfforol	3	1	6
Busnes	2	0	3
TG/ cyfrifiaduron	0	0	9
Datbygiad plant	0	0	2
Gofal cwsmeriaid	0	0	1
Arlwyo/ coginio	0	1	4
Amaeth	0	1	0
Cyfr yngau	0	0	2
Peirianeg	0	0	1


Ymddengys fod 46% o'r disgyblion heb benderfynu'n derfynol oherwydd i 63 allan o 135 ohonynt beidio â chwblhau'r cwestiwn hwn yn Adran B.

Ymddengys fod y dychweliad yn isel am nad oedd y disgyblion wedi gorffen trafod eu dewisiadau na derbyn y ffurflenni priodol gan yr ysgol adeg llenwi'r holiadur. Tra medrai Ysgol Penweddig gynnig pynciau cyfrwng-Cymraeg yn y Chweched Dosbarth, ni fedrai Ysgol Llanbedr nac Ysgol Tregaron sicrhau unrhyw ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg ar wahân oherwydd niferoedd bach y

disgyblion yn y gwahanol bynciau yn ogystal â'r diffyg profiad o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer TGAU.

Pan ofynnwyd i ddisgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol yng Nghwestiwn 4 a oeddent yn bwriadu astudio pwnc/ pynciau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 12, naill ai yn eu hysgol neu mewn coleg Addysg Bellach, cafwyd ymatebion gan 30 o ddisgyblion Ysgol Llanbedr allan o'r 31 yn y sampl, 20 o ddisgyblion Ysgol Tregaron allan o 24 a chan 71 o ddisgyblion Ysgol Penweddig allan o 80.

Tabl 25: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol i astudio pwnc newydd trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlwyddyn 12 yn yr ysgol/ mewn coleg Addysg Bellach



Nododd 5 disgybl yn Ysgol Llanbedr eu bwriad i astudio pynciau newydd cyfrwng Cymraeg ar ôl gorffen Blwyddyn 11, sef Peirianeg a Busnes.

Dymunai 7 disgybl yn Ysgol Tregaron astudio Harddwch y flwyddyn ganlynol a nodai 25 o ddisgyblion Ysgol Penweddig eu hawydd i astudio Cyfryngau, Y Gyfraith, Iechyd a Gofal, Gwallt a Harddwch, Chwaraeon Awyr Agored a Seicoleg. Dim ond yn Ysgol Penweddig y'u haddysgid hwy trwy'r Gymraeg.

Cyflwynid y pynciau newydd hyn trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyd â'r Saesneg o fewn yr un dosbarth yn Ysgol Llanbedr ac Ysgol Tregaron.

Mewn ymateb i Gwestiwn 5 ar eu dewis o gyfrwng iaith ar gyfer astudio'r Sgiliau Allweddol, gwelir yn Nhablau 26-28 bod amrywiaeth o fewn y tair ysgol. O edrych ar lefelau'r dychweliad ateb yn y golofn Cyfanswm, awgrymai niferoedd yr atebion fod y disgyblion yn ansicr o'r drefniadaeth o fewn eu hysgolion.

Tabl 26: Yr iaith a ddefnyddid i gyflawni gofynion y cyrsiau Sgiliau Allweddol yn Ysgol Llanbedr

	Cymraeg	Saesneg	Amherthnasol	Cyfanswm (allan o 31)
Cyfathrebu	8	4	5	17
Cymhwyso rhif	5	6	5	16
TGCh	4	9	5	18

Awgryma'r dychweliad isel, sef 53%, nad oedd y disgyblion yn Ysgol Llanbedr yn hollol sicr o'r gofyniad hwn.

Tabl 27: Yr iaith a ddefnyddid i gyflawni gofynion y cyrsiau Sgiliau Allweddol yn Ysgol Tregaron

	Cymraeg	Saesneg	Amherthnasol	Cyfanswm (allan o 24)
Cyfathrebu	9	4	5	20
Cymhwyso rhif	10	5	5	20
TGCh	3	12	4	19

Dengys lefelau dychweliad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron, sef 83%, eu bod yn meddu ar ymwybyddiaeth o'r gofynion. Fodd bynnag, gwelir bod y defnydd o'r Gymraeg at gyflawni gofynion yn y cyrsiau Sgiliau Allweddol yn isel: 9 disgybl allan o 24 ar gyfer cyflawni gofynion Cyfathrebu, 10 disgybl allan o 24 ar gyfer cyflawni gofynion Cymhwyso Rhif a 3 disgybl allan o 24 ar

gyfer cyflawni gofynion Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu. Nid yw'r atebion hyn yn gymharus â pholisi cyfredol yr ysgol o weithredu'r Sgiliau Allweddol trwy gyfrwng y Saesneg yn unig, megis y soniwyd mewn cyfweiliad â'r Dirprwy Bennaeth.

Tabl 28: Yr iaith a ddefnyddid i gyflawni gofynion y cyrsiau Sgiliau Allweddol yn Ysgol Penweddig


	Cymraeg	Saesneg	Amherthnasol	Cyfanswm (allan o 80)
Cyfathrebu	40	20	8	68
Cymhwyso rhif	37	20	9	66
TGCh	42	16	8	66

Gwelir bod lefel dychweliad yr ymatebion gan ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig yn 85% wrth nodi cyfrwng ieithyddol ar gyfer cyflawni gofynion Cyfathrebu, ond 50% o ddisgyblion Blwyddyn 11 yr ysgol a astudiodd hwnnw trwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd gweithredid cynllun pilot gyda hanner Blwyddyn 11 yn unig. Trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig y bwriedid gweithredu yn y dyfodol.

Mewn ymateb i Gwestiwn 6 a oedd yn ymwneud â'u bwriad posibl o newid cyfrwng iaith o'r Gymraeg i'r Saesneg, dengys Tabl 29 mai lleiafrif a fwriadai newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y Saesneg ond mai yn Ysgol Penweddig, sef yr ysgol Gymraeg benodedig, oedd y ganran uchaf. Dymunai 4 disgybl (12%) o Ysgol Llanbedr, 1 disgybl (3%) o Ysgol Tregaron a 28 o ddisgyblion (35%) o Ysgol Penweddig newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y Saesneg ym Mlwyddyn 12. Y pynciau a nodwyd oedd Iechyd a Gofal, Mathemateg (Ysgol Llanbedr); Electroneg, TGCh, Peirianeg (Ysgol Tregaron) a Daearreg, Gwyddorau, Mathemateg, Peirianeg (Ysgol Penweddig). Ymddangosai'r newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y

Saesneg yn ddiangen yn Ysgol Llanbedr ac Ysgol Tregaron oherwydd mai'r Saesneg a fyddai unig iaith cyfrwng y pynciau hynny.

Tabl 29: Dymuniad i newid cyfrwng i'r Saesneg ym Mlwyddyn 12 gan ddisgyblion y tair ysgol



Mewn ymateb i Gwestiwn 7, a ofynnai i'r disgyblion nodi eu rhesymau dros newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y Saesneg, cafwyd amryw resymau ganddynt fel y gwelir yn Nhablau 30–32. Yn Ysgol Llanbedr (er y cafwyd ond 4 disgybl yn nodi'r awydd am newid cyfrwng yng Nghwestiwn 6) dangosai'r tri rheswm uchaf y dymunai 8 disgybl (24%) newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y Saesneg oherwydd diffyg argaeledd eu dewisgwrs trwy gyfrwng y Gymraeg; dymunai 5 disgybl (16%) newid i'r Saesneg oherwydd diffyg hyder wrth ysgrifennu Cymraeg a 4 disgybl (14%) oherwydd diffyg hyder wrth siarad Cymraeg. Ymddengys y gallai diffyg darpariaeth gyfrwng-Cymraeg a phrinder addysg i atgyfnerthu eu Cymraeg amddifadu disgyblion o'r cyfle i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg trwy gydol eu haddysg uwchradd.

Tabl 30: Rhesymau dros ddymuno newid cyfrwng i'r Saesneg ym Mlwyddyn 12 gan ddisgyblion Ysgol Llanbedr

Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	8
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	1
Dim cwrs cyfwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	3
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	1
Dilyn penderfyniad ffrindiau	1
Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg	4
Diffyg hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	5
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	2

Tabl 31: Rhesymau dros ddymuno newid cyfrwng i'r Saesneg ym Mlwyddyn 12 gan ddisgyblion Ysgol Tregaron

Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	3
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	1
Dim cwrs cyfwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	1
Cyngor athro/awes	1
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	2
Brawd/ chwaer hŷn wedi newid cyfrwng	1
Cyngor brawd/ chwaer hŷn	1
Cyngor rhiant/ rhieni/ gwarchweidwaid	1
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	1

Oherwydd y niferoedd a chanrannau isel, ni chafwyd ymatebion niferus gan ddisgyblion Ysgol Tregaron i'r cwestiwn hwn. Gallai'r rhifau ymddangos yn ddiystyr gan mai un disgybl yn unig a nododd y dymunai newid cyfrwng er mwyn astudio trwy gyfrwng y Saesneg mewn ymateb i Gwestiwn 6 (gweler Tabl 29). Fel yn achos Ysgol Llanbedr, cyfeiriwyd at ddiffyg argaeledd cwrs cyfrwng-Cymraeg fel prif reswm dros ddewis astudio trwy gyfrwng y Saesneg a nodwyd dylanwad cyngor Swyddog Gyrfaoedd fel un o'r ffactorau.

Tabl 32: Rhesymau dros ddymuno newid cyfrwng i'r Saesneg ym Mlwyddyn 12 gan ddisgyblion Ysgol Penweddig

Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	11
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	10
Dim cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	16
Cyngor athro/awes	4
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	5
Brawd/ chwaer hŷn wedi newid cyfrwng	4
Cyngor brawd/ chwaer hŷn	2
Cyngor rhiant/ rhieni/ gwarchweidwaid	3
Dilyn penderfyniad ffrindiau	1
Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg	12
Diffyg hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	8
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	12
Arall Symud ysgol:1, gweithio yn Lloegr:1,	5
Termau Cymraeg yn anodd:1, deall yn well yn Saesneg:2	


Gwelir mai'r prif reswm a roddwyd gan 16 disgybl neu 20% o ganran disgyblion Ysgol Penweddig am ddymuno newid cyfrwng oedd diffyg cwrs cyfrwng Cymraeg yn y coleg neu yn y brifysgol. Ychydig yn is oedd y rhesymau "diffyg hyder wrth siarad" (12 disgybl neu 15% o'r canran) a'u bod "wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg" (12 disgybl neu 15% o'r canran). Gwelir hefyd bod ystod o resymau, o'r rheswm "diffyg argaeledd cwrs yn y coleg neu'r brifysgol" (20%) i'r rheswm "dilyn penderfyniad ffrindiau" (1%). Ymddangosai fod diffyg sicrhad yn y dilyniant a pharhad ieithyddol yn eu hastudiaethau o'r uwchradd i Addysg Uwch o fewn y gyfundrefn addysg yng Nghymru (er y dyhead am hynny gan Iaith Pawb (LICC, 2003) a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad (LICC, 2009)), a phrinder cyfleoedd ar gyfer cryfhau ac atgyfnerthu'r Gymraeg o fewn yr ysgol yn dylanwadu'n drwm ar y disgyblion ar draws y tair ysgol.

Pan holwyd yng Nghwestiwn 8 a ystyriai'r disgyblion y byddai'n fanteisiol cael astudio trwy gyfrwng y Gymraeg pe bai modd iddynt wneud hynny, cafwyd yr ymatebion canlynol gan ddisgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol:

Tabl 33: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r gred y byddai'n fanteisiol iddynt astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai modd iddynt wneud hynny

	Byddai	Na fyddai	Cyfanswm
Ysgol Llanbedr	8	14	22 allan o 31
Ysgol Tregaron	2	6	8 allan o 24
Ysgol Penweddig	21	22	43 allan o 80

Tabl 34: Disgyblion y tair ysgol yn ymateb i'r gred y byddai'n fanteisiol iddynt astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, pe bai modd iddynt wneud hynny



Nodir y cafwyd ymatebion negyddol ym mhob achos i'r syniad o beidio â newid cyfrwng i'r Saesneg ac i barhau ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, oherwydd y byddai'n fanteisiol i'r disgyblion. Dim ond 8 disgybl o Ysgol Llanbedr, 2 ddisgybl o Ysgol Tregaron a 21 o ddisgyblion o Ysgol Penweddig a ystyriai newid o astudio trwy'r Saesneg er mwyn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg pe bai modd iddynt wneud. Cafwyd canrannau ymatebion negyddol


uwch gan ddisgyblion Ysgol Llanbedr (44%) nag Ysgol Tregaron (25%) ac Ysgol Penweddig (27%). Cafwyd canran uwch o ymatebion gan ddisgyblion Ysgol Llanbedr (70%) na chan ddisgyblion Ysgol Tregaron (33%) ac Ysgol Penweddig (54%), fel y dengys Tabl 34. Ymddangosai fod y disgyblion yn Ysgol Llanbedr eisoes wedi cyfarwyddo ag astudio trwy gyfrwng y Saesneg gymaint yn ystod Cyfnod Allweddol 4 fel na welent werth na mantais mewn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg a bod y dull “dwyieithog” yn cyflyru’r disgyblion i gynllunio astudio trwy gyfrwng y Saesneg.

Mewn ymateb i Gwestiwn 9 am eu bwriad i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg ac i ddefnyddio’r Gymraeg mewn hyfforddiant yn y gweithle, cafwyd yr ymatebion canlynol gan ddisgyblion y tair ysgol (Tablau 35-40).

Tabl 35: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol

	Yn y coleg/ Yn y brifysgol	Yn y gweithle
Byddaf yn sicr	3	5
Gweddol siwr	7	6
Ddim yn siwr	10	11
Na fyddaf	8	3

Tabl 36: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol




Gwelir bod y niferoedd a'r canrannau'n gwahaniaethu ychydig ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg neu'r brifysgol ac yn y gweithle. Dim ond 3 disgybl a ragwelai yr astudent trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg a dim ond 5 disgybl yn eu gweithle. Roedd y ganran uchaf (32%) yn ansicr o astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Ond 5 disgybl (25%) na ddymunai astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg neu'r brifysgol a 3 disgybl yn y gweithle. Ymddengys y gallai hynny'n adlewyrchu'r diffyg darpariaeth a brofid gan y disgyblion eisoes.

Tabl 37: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol

	Yn y coleg/ Yn y brifysgol	Yn y gweithle
Byddaf yn sicr	5	5
Gweddol siwr	2	3
Ddim yn siwr	6	1
Na fyddaf	5	3

Tabl 38: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Tregaron i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol




Ond 5 disgybl (16%) yn Ysgol Tregaron a fwriadai astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol a mynd i'r coleg neu'r brifysgol. Dim ond 5

disgybl hefyd a deimlai'n sicr o dderbyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle. Er yr ymddengys y canrannau hyn yn uchel yn Nhabl 38, niferoedd bach sydd dan sylw. Gwelir bod 6 disgybl (25%) yn ansicr ynglŷn ag astudio trwy'r Gymraeg yn y coleg neu'r brifysgol. Dymunai 5 disgybl (16%) beidio ag astudio trwy'r Gymraeg yn y coleg a 3 disgybl (12%) beidio ag astudio neu dderbyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg yn y gweithle. Ymddengys nad oedd yr agenda ieithyddol/ gwleidyddol yn rhan o ymwybyddiaeth y disgyblion ar gyfer dyfodol gyrfaol.

Tabl 39: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol

	Yn y coleg/ Yn y brifysgol	Yn y gweithle
Byddaf yn sicr	15	5
Gweddol siwr	7	9
Ddim yn siwr	23	29
Na fyddaf	27	19

Tabl 40: Bwriad disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, ar ôl gadael yr ysgol



Dengys Tabl 39 mai ond 15 disgybl (19%) ym Mlwyddyn 11 yn Ysgol Penweddig a ddymunai astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg neu'r

brifysgol a dim ond 5 disgybl (6%) yn y gweithle, er iddynt dderbyn eu haddysg bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Yn ogystal, gwelir bod 23 o ddisgyblion Ysgol Penweddig (28%) yn ansicr ynglŷn ag astudio trwy'r Gymraeg yn y coleg neu'r brifysgol a bod 29 o ddisgyblion (35%) yn ansicr ynglŷn ag astudio neu dderbyn hyfforddiant trwy'r Gymraeg yn y gweithle. Yr oedd 27 o ddisgyblion (33%) na fwriadent astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y coleg na'r brifysgol a 19 o ddisgyblion (23%) na ddymunent dderbyn hyfforddiant yn y gweithle ar ôl iddynt adael yr ysgol. Ymddangosai, felly, nad oedd llawer o awydd gan nifer dda o ddisgyblion yr ysgol Gymraeg benodedig hon i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg wedi iddynt adael yr ysgol.

Wrth ateb Cwestiwn 10 a nodi eu rhesymau dros yr ansicrwydd parthed astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch neu yn y gweithle ar ôl gadael yr ysgol, cafwyd yr ymatebion isod:

Tabl 41: Rhesymau dros ansicrwydd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol

Rheswm	Ysgol Llanbedr (nifer /31)	Ysgol Tregaron (nifer /24)	Ysgol Penweddig (nifer /80)
Dibynnu a fydd y cwrs ar gael	14	11	31
Dibynnu ar ddewis fy ffrindiau	2	1	4
Dibynnu ar y canlyniadau ym mis Awst	6	6	18
Dibynnu ar gyngor teulu	3	1	9
Dibynnu ar gyngor yn yr ysgol	3	1	4
Dibynnu ar leoliad y cwrs	10	3	32
Arall (nodwch beth)	2	3	3

Dengys Tabl 41, yn achos 14 (45 %) o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 11 (36%) o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 31 (32%) o ddisgyblion Ysgol Penweddig, fod argaeledd cwrs yn brif reswm dros ansicrwydd dewis cwrs cyfrwng

Cymraeg. Gwelir bod gan ddisgyblion y tair ysgol resymau hynod debyg am yr ansicrwydd dros ddewis cyrsiau cyfrwng Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol.

Awgryma'r ffigyrau hyn na ddarperir rhaglen gydlynus o gyrsiau priodol na lleoliadau iddynt.

Pan holwyd disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol am resymau dros beidio ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch, cafwyd yr ymatebion dilynol a dengys Tabl 42 fod nifer uchel o ddisgyblion yn ystyried diffyg argaeledd cwrs priodol trwy gyfrwng y Gymraeg yn faen tramgwydd iddynt, gyda 11 disgybl (35%) yn Ysgol Llanbedr a 27 disgybl (33%) yn Ysgol Penweddig yn nodi hyn yn ffactor dros beidio ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch. Nodai 8 disgybl (25%) yn Ysgol Llanbedr a 21 o ddisgyblion (26%) yn Ysgol Penweddig ddiffyg argaeledd cwrs yn y coleg neu'r brifysgol. Y rheswm uchaf a nodwyd gan ddisgyblion Ysgol Tregaron oedd iddynt flino ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg (6 disgybl / 25%), er bod lle i gwestiynu maint y ddarpariaeth honno efallai.

Tabl 42: Rhesymau gan ddisgyblion y tair ysgol dros beidio ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch


	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	11	4	27
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	5	3	14
Dim cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	8	2	21
Cyngor athro/awes	1	0	3
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	0	2	4
Brawd/ chwaer wedi newid cyfrwng	0	2	5
Cyngor brawd/ chwaer hŷn	0	0	2
Cyngor rhieni/ gwarchweidwaid	0	0	5
Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg	4	0	14
Dim hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	4	1	11
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	4	5	12

Mewn ymateb i Gwestiwn 12 parthed eu hymwybyddiaeth am argaeledd cwrs cyfrwng Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol, nifer isel a wyddai'n sicr am fodolaeth cwrs cyfrwng Cymraeg, sef 4 disgybl yn Ysgol Llanbedr (12%), 2 yn Ysgol Tregaron (8%) a 13 disgybl (16%) yn Ysgol Penweddig.

Tabl 43: Ymwybyddiaeth disgyblion y tair ysgol o bosibilrwydd astudio dewis-bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch

	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Gwybod yn sicr am gwrs cyfrwng Cymraeg	4	2	13
Ansicr bod cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael	16	14	41
Gwybod dim byd am gwrs cyfrwng Cymraeg	9	4	20

Tabl 44: Ymwybyddiaeth disgyblion y tair ysgol o bosibilrwydd astudio dewis-bwnc trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector Addysg Uwch



Trafodwyd y gwahanol ffynonellau gwybodaeth am gyrsiau coleg a swyddi mewn cyfweiliadau gyda'r athrawon oedd â chyfrifoldeb dros "Addysg sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith" a swyddogion y cwmni Gyrfa Cymru. Nodwyd y trefnai'r tair ysgol amrediad o brofiadau gogyfer â dewis gyrfa hefyd yn y gwersi Addysg Bugeiliol, Iechyd a Chymdeithasol a ganolbwyntiai ar agweddau ar Fyd Gwaith. Yn ogystal, ceid achlysuron pwrpasol megis

Cynadleddau Gyrfaoedd a siaradwyr gwadd o wahanol gefndiroedd Byd Gwaith a rhoddid cyfle i'r disgyblion fynd am gyfnod o Brofiad Gwaith gan y tair ysgol. Trefnwyd cyfweiliadau unigol hefyd i'r disgyblion â swyddogion Gyrfa Cymru: Gorllewin Cymru.

Yng Nghwestiwn 13, holwyd disgyblion Blwyddyn 11 am ffynhonnell eu gwybodaeth am gyrsiau cyfrwng Cymraeg a chanfuwyd mai gan swyddogion Gyrfa Cymru y câi 22% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 33% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 32% o ddisgyblion Ysgol Penweddig (a'r athrawon o fewn eu hysgolion) y wybodaeth honno gan mwyaf. Roedd rôl allweddol gan gwmni Gyrfa Cymru i sicrhau bod yr ysgolion a'r disgyblion o fewn yr ysgolion hynny yn cael pob gwybodaeth am gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Amcanion hynny oedd paratoi at greu gweithlu dwyieithog yng Nghymru. Câi disgyblion y tair ysgol wybodaeth o sawl ffynhonnell arall heblaw Gyrfa Cymru, fel rhieni ac athrawon, a allai ddylanwadu ar eu penderfyniad o beidio ag astudio trwy gyfrwng y Gymraeg.

Tabl 45: Ffynhonnell gwybodaeth am gyrsiau cyfrwng Cymraeg

	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Swyddog Gyrfaoedd	7	8	26
Athro/awes	5	9	11
Pennaeth Blwyddyn	3	Amherthnasol	5
Rhieni	5	5	11
Ffrind	1	2	8
Ymchwil personol	4	5	16
Arall: nodwch yma	4	2	4

D.S. Ni cheir Pennaeth Blwyddyn yn Ysgol Tregaron

Gofynnwyd i'r disgyblion, yng Nghwestiwn 14, pa ffactorau a fyddai'n debygol o newid eu meddyliau parthed dewis astudio trwy gyfrwng y Saesneg.

Dengys Tabl 46 mai'r ffactorau mwyaf amlwg fyddai cael cymorth gyda'r Gymraeg, a nodwyd hynny gan 8 disgybl (26%) yn Ysgol Llanbedr a 15 disgybl (19%) yn Ysgol Penweddig. Nodai 15 (19%) o ddisgyblion Ysgol Penweddig argaeledd cyrsiau dwyieithog a 19% sicrwydd cwrs yn y coleg neu brifysgol. Nodai rhai disgyblion y dewisiad "Arall" ond heb roi manylion pellach. Ymddengys yr effeithiai diffyg adnoddau atgyfnerthu iaith yn ystod eu cwrs addysg ar hyder rhai disgyblion.

Tabl 46: Ffactorau a fyddai'n debygol o newid meddwl disgyblion y tair ysgol parthed astudio trwy gyfrwng y Saesneg

	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Cymorth gyda'r Gymraeg (geirfa, termau, ac ati)	8	0	15
Cyrsiau lle y defnyddir y ddwy iaith	6	3	15
Sicrwydd bod cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar ôl Blwyddyn 11	5	5	11
Sicrwydd bod cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol/ y gweithle	4	4	15
Arall (nodwch beth)	3	2	6

Mewn ymateb i Gwestiwn 15 ar gyfrwng iaith eu gyrfa a'u gwaith yn y dyfodol, pan roddwyd dewis iddynt ar amrediad o'r Gymraeg yn unig i'r Saesneg yn unig, rhagwelai 58% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 49% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 37% o ddisgyblion Ysgol Penweddig mai gweithio'n ddwyieithog a wnaent yn y dyfodol. Ni chafwyd neb o Ysgol Llanbedr, dim ond 1 disgybl o Ysgol Tregaron a 6 disgybl o Ysgol Penweddig a hoffai feddwl am weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y dyfodol, sef 7 disgybl allan o sampl o 135, tra dymunai 5 disgybl o Ysgol Llanbedr, 3

disgybl o Ysgol Tregaron a 12 disgybl o Ysgol Penweddig weithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf yn y dyfodol, sef cyfanswm o 20.

Tabl 47: Ym mha iaith yr hoffai disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol weithio yn y dyfodol

	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Cymraeg yn unig	0	1	6
Cymraeg yn bennaf	5	3	12
Cymraeg a Saesneg yn lled gyfartal	18	11	30
Saesneg yn bennaf	5	2	23
Saesneg yn unig	0	3	5
Iaith arall (nodwch/ eglurwch)	2	0	2

Yng Nghwestiwn 16, holwyd hwy ynglŷn â phosibilrwydd dilyn cwrs cyfrwng-Cymraeg trwy gyfrwng fideo neu ddysgu o bell. Dyma un o'r dulliau a gâi eu hystyried gan Awdurdod Addysg Ceredigion ar gyfer diwallu gofynion cwricwlaidd Llwybrau Dysgu 14–19. Addysgid rhai modiwlau mewn rhai cyrsiau drwy ddull fideo yn y tair ysgol ar y pryd ac ymddangosai'n boblogaidd gan y disgyblion. Er hynny, dim ond 17 disgybl (55%) o Ysgol Llanbedr, 9 disgybl (37%) o Ysgol Tregaron a 35 o ddisgyblion (44%) Ysgol Penweddig a nododd eu parodrwydd i wneud hynny. Goblygiadau'r cyndynrwydd hwnnw i ddysgu trwy gyfrwng fideo neu ddysgu o bell yn y dyfodol efallai fyddai tanseilio cynlluniau'r awdurdod addysg i gynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfartal â thrwy gyfrwng y Saesneg i ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf yr ysgolion Cymraeg “traddodiadol” gan aros yn y dull presennol o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y cyd â'r Saesneg yn yr un dosbarth.


Tabl 48: Bodlonrwydd disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol i ddysgu trwy gyfrwng fideo neu ddysgu o bell pe byddai rhaid

	Ysgol Llanbedr	Ysgol Tregaron	Ysgol Penweddig
Byddwn	17	9	35
Na fyddwn	10	11	37
Cyfanswm	27/ 31	20/24	74/80

Roedd 8 datganiad yng nghwestiwn olaf Adran B, sef Cwestiwn 17, lle rhoddwyd cyfle i'r disgyblion ystyried eu hagwedd at yr iaith Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau. Gofynnwyd iddynt nodi eu barn drwy ddewis un opsiwn o bump ar Raddfa Likert, gyda 5 yn datgan "Cytuno'n gryf" ac 1 yn dynodi "Anghytuno'n gryf".


Mewn ymateb i'r ystyriaeth bod addysg o safon well yn deillio o ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ymatebwyd fel a ganlyn: dim ond 16% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 24% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 13% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf â'r gosodiad hwnnw gydag ond 19% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 20% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 25% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn cytuno â'r gosodiad. Er yr holl dystiolaeth a'r ystadegau swyddogol, sydd yn ategu hynny (Baker, 1995; Lewis, 1999), ymddengys nad oedd lefel ymwybyddiaeth disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol yn uchel iawn.

Tabl 49: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn cynnig addysg o well safon




Profodd y gosodiad nesaf am addysg Gymraeg yn cynnig manteision deallusol, sef 17 (b), yn anos wrth i 9% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr a 12% o ddisgyblion Ysgol Tregaron beidio ag ymateb iddo. Dim ond 4% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 12% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf fod manteision deallusol i addysg Gymraeg tra cytunai 49% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 28% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â hynny. Cafwyd ymchwil pwysig gan Peal & Lambert (1962) o safbwynt effeithiau cadarnhaol dwyieithrwydd a fu'n ddylanwadol ar greu dyfodiad cyfnod "ychwanegus" yn hanes addysg cyfrwng Cymraeg/ ddwyieithog. Fodd bynnag, bron hanner canrif yn ddiweddarach, gellid gweld nad oedd y neges wedi derbyn cyhoeddusrwydd digonol.

Tabl 50: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn cynnig manteision deallusol




Wrth ofyn eu barn am y gred y gallai addysg Gymraeg sicrhau gwell swydd a gyrfa wedi iddynt adael yr ysgol (Tabl 51), cytunai ond 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 18% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Penweddig yn gryf â hynny gyda dim ond 27% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 21% o Ysgol Tregaron a 28% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn cytuno. Ymddengys fod gagendor rhwng disgwyliadau Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn dogfennau megis Iaith Pawb (LICC, 2003) ar y naill law a'r cyngor gyrfaoedd a gynigid i ddisgyblion gan swyddogion Gyrfa Cymru a ymwelai â'r ysgolion 'w cynghori ar y llaw arall. Tra bod cyrff cyhoeddus megis Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd yn y gweithle, ymddangosai fod canfyddiad ac ymwybyddiaeth disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol o'r manteision hynny'n isel.

Tabl 51: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn sicrhau gwell swydd a gyrfa ar ôl gadael yr ysgol




Pan holwyd disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol parthed eu cred bod addysg Gymraeg yn diogelu'r iaith Gymraeg yn y gymuned (Tabl 52), dim ond 9% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 17% o ddisgyblion ysgol Tregaron a 23% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf â'r datganiad tra dangosai 58% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 50% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 42% o ddisgyblion Ysgol Penweddig eu cytundeb: hynny yw, cyfanswm o 67% yn Ysgol Llanbedr, 67% yn Ysgol Tregaron a 65% yn Ysgol Penweddig. Efallai eu bod yn ymwybodol eu bod yn byw mewn ardal Gymraeg ac, felly na welent berygl i ddyfodol yr iaith yn eu cymunedau. Ar ddechrau'r holiadur maentumiai canran uchel o'r tair ysgol (78% Ysgol Llanbedr, 84% Ysgol Tregaron a 66% Ysgol Penweddig) mai'r Gymraeg oedd eu hiaith gyntaf (Tabl 5): ymddangosai'r Gymraeg yn rhan naturiol o'u cymunedau.

Tabl 52: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn sicrhau dyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned




Mewn ymateb i'r gosodiad am bwysigrwydd addysg Gymraeg i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Tabl 53) dim ond 6% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 10% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gredai hynny'n gryf tra cytunai 42% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 50% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 33% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad. Ymddengys fod dyhead Llywodraeth Cynulliad Cymru am Gymru ddwyieithog a rôl allweddol addysg Gymraeg yn y broses o greu hynny yn anghymarus ag agwedd y disgyblion tuag ato. Ni feddai'r disgyblion o bosibl, felly, lefel uchel o ymwybyddiaeth ieithyddol a gwleidyddol gogyfer â phwysigrwydd addysg Gymraeg i'r Cynulliad.

Tabl 53: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn bwysig i'r Cynulliad




Holwyd yng Nghwestiwn 7 (dd) am ymateb disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol i bwysigrwydd addysg Gymraeg i'r Llywodraeth yn Llundain a gwelwyd amrywiaeth yn yr ymatebion hynny. Dim ond 9% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gredai'n gryf bod addysg Gymraeg yn bwysig yn yr achos hwnnw tra cytunai 6% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 4% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad.

Tabl 54: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn bwysig i'r llywodraeth yn Llundain



Mewn ymateb i osodiad am bwysigrwydd addysg Gymraeg i sicrhau dyfodol y Gymraeg o fewn eu teuluoedd (Cwestiwn 7e), maentumiai ond 6% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 23% o ddisgyblion Ysgol Penweddig eu bod yn cytuno'r gryf ei bod yn bwysig iddynt. Cytunai 58% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 32% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad. Cafwyd cyfanswm felly 64% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 67% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 55% o ddisgyblion Ysgol Penweddig. Ymddengys fod lle i ddatblygu ymhellach gweithgarwch y cynllun Twf, cynllun Llywodraeth Cynulliad Cymru dros hyrwyddo trosglwyddiad y Gymraeg o'r genedlaeth hŷn i'r genhedlaeth iau, er mwyn sicrhau trosglwyddiad y Gymraeg i'r genhadlaeth nesaf.


Tabl 55: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn sicrhau dyfodol y Gymraeg o fewn y teulu



Terfynwyd Adran B gyda gosodiad bod y Gymraeg yn rhan o hunaniaeth a hunan-werth y disgyblion. Dim ond 9% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o

ddisgyblion Ysgol Tregaron a 15% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf ei bod yn bwysig iddynt tra cytunai 34% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 36% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad. Gwelir yn Nhabl 56 bod canran ymatebion cadarnhaol disgyblion y tair ysgol yn uwch na chanran eu hymatebion negyddol. Ymddengys fod gagendor rhwng amcanion Iaith Pawb (LICC, 2003) a chanfyddiadau'r disgyblion eu hunain o werth y Gymraeg iddynt. Ar ddechrau'r holiadur (Tabl 5), maentumiai 78% o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Llanbedr, 84% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 66% o ddisgyblion Ysgol Penweddig fod yr iaith Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt (Tabl 5): canrannau a oedd yn sylweddol uwch na'r canrannau a gytunai â'r gosodiad am bwysigrwydd y Gymraeg i hunaniaeth a hunan-werth y disgyblion hynny.

Tabl 56: Ymateb disgyblion y tair ysgol i'r datganiad bod addysg Gymraeg yn bwysig i'w hunaniaeth a'u hunan-werth



Adran C

Yn Adran C, rhoddwyd cyfle i ddisgyblion fynegi sylwadau ynglŷn â'u profiadau personol o addysg cyfrwng Cymraeg neu'r ddarpariaeth a brofid ganddynt yn y gorffennol. Fodd bynnag, dim ond 7 o ymatebion a gafwyd a phob un ohonynt o'r un ysgol. Gan y gweithredwyd y sesiwn cwblhau'r holiaduron yn yr un modd gan Ddrprwy Benaethiaid y tair ysgol, nid oedd unrhyw arwyddocâd yn hynny. Y prif agweddau a bwysleisiwyd drwy sylwadau byr yn unig yn yr adran hon oedd yr hyn a nodwyd gan ddata blaenorol, sef yr anhawster a brofid gan unigolion wrth ddefnyddio'r cyfrwng hwnnw ynghyd â therminoleg Gymraeg, er i un disgybl nodi "Dim pwynt astudio Gwyddoniaeth na Mathemateg trwy'r Gymraeg oherwydd mai Saesneg neu Almaeneg yw iaith cyhoeddi meysydd ymchwil".

CANLYNIADAU

Dengys canlyniadau'r ymchwil hwn y deuai nifer fawr o ddisgyblion Blwyddyn 11 TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn y tair ysgol o gartrefi Saesneg/di-Gymraeg. Tra y maentumiai 78% o blant Llanbedr Pont Steffan, 84% o blant Tregaron a 66% o blant Penweddig fod yr iaith Gymraeg yn iaith gyntaf iddynt (Tabl 5), cafwyd ymatebion amrywiol parthed defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn y teulu, fel y gwelir yn Nhablau 7-9, gyda 42% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 66% o ddisgyblion Ysgol Tregaron ac ond 38% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn defnyddio'r Gymraeg yn bennaf gydag aelodau'r teulu. Adlewyrchai'r ymatebion ansicrwydd ieithyddol a diffyg hyder wrth siarad ac ysgrifennu Cymraeg ac efallai y byddai angen strwythurau cynhaliol ar y disgyblion hynny er mwyn eu galluogi i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlynnyddoedd 12 a 13. Ymddangosai na cheid digon o hyder gan rai disgyblion i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg er bod llawer ohonynt wedi cael eu haddysg gynradd ac uwchradd trwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf ac yn byw mewn ardal lle mae'r Gymraeg yn rhan naturiol o fywyd y gymuned. Er hyn oll, cydnabyddid eu bod, o bosibl, yn cael y Gymraeg a gofynion cyrsiau arholiad TGAU yn anodd ac nid ymddangosai iddynt brofi teimlad o lwyddiant yn hytrach na methiant.

Mewn cyfweiliadau â'r Dirprwy Benaethiaid yn Ysgol Llanbedr ac Ysgol Tregaron, dywedwyd bod nifer o bynciau dewisol yn cael eu haddysgu trwy ddull "dwyieithog" yng Nghyfnod Allweddol 4, lle defnyddid y Gymraeg ar y cyd â'r Saesneg o fewn yr un dosbarth. Gweithredid yn y dull hwn oherwydd

na chaniatâi niferoedd bychain i'r pynciau hynny gael eu dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân i'r Saesneg. Tra ymfalchid yn natblygiad Cymraeg disgyblion Cymraeg ail iaith, mynegwyd peth pryder am effaith y dull "dwyieithog" hwn ar Gymraeg y siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, sef gwrthrych yr ymchwil hwn. Dangosodd ymchwil Dysg (2006) y gallai dysgu "dwyieithog" o'r fath arwain at yr holl ddisgyblion yn sefyll arholiadau allanol terfynol yn y Saesneg.

Gwelwyd bod lefelau defnydd y disgyblion o'r iaith Gymraeg yn isel o fewn eu gwersi ac yn disgyn yn is y tu allan i'r gwersi a thu allan i'r ysgol gan gynnwys disgyblion yr ysgol Gymraeg benodedig (39%, 39% a 36%). Nid peth newydd mo hyn: cafwyd ymchwil i'r maes hwn rai blynyddoedd yn ôl bellach (Jones,1995):

The language choices of the Welsh-speakers in the designated schools is not very different from that of English-speakers – English is markedly dominant. (Jones, 1991:87)

Pan holwyd disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol am yr iaith a ddefnyddid gogyfer â chyflawni gofynion y cwrs Sgiliau Allweddol, dangosai'r ymatebion ansicrwydd (Tablau 26 -28) ar eu rhan gan adlewyrchu diffyg ymrwymiad i ddarpariaeth cyfrwng-Cymraeg ond hefyd, fe ymddengys, ansicrwydd argaeledd y cyfrwng yn achos y ddwy ysgol Gymraeg draddodiadol oherwydd anawsterau trefniadaethol posibl, sef yr anallu i ddarparu cyrsiau yn y ddau gyfrwng. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, y mae lle i gwestiynu natur y cyfrwng ieithyddol a weithredir yn yr ysgolion. Roedd rhai disgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Penweddig o dan yr argraff eu bod yn cyflawni rhai tasgau trwy

gyfrwng y Saesneg ar gyfer eu portffolio Sgiliau Allweddol, er mai trwy gyfrwng y Gymraeg y disgwyliid iddynt wneud hynny yn ôl y Dirprwy Bennaeth.

Yn y tair ysgol gwelwyd diffyg gwybodaeth neu ansicrwydd gan ddisgyblion Blwyddyn 11 am fodolaeth cyrsiau a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg ar gyfer y dyfodol, yn enwedig yn y sector Addysg Uwch. Mewn ymateb i Gwestiwn 12 parthed eu hymwybyddiaeth am argaeledd cwrs cyfrwng Cymraeg wedi iddynt adael yr ysgol, nifer isel a wyddai'n sicr am fodolaeth cwrs cyfrwng Cymraeg, sef 4 disgybl yn Ysgol Llanbedr (12%), 2 yn Ysgol Tregaron (8%) a 13 disgybl (16%) yn Ysgol Penweddig. Dyma oedran allweddol o ran derbyn cyngor gyrfaoel a gwneud penderfyniadau a fyddai'n dylanwadu arnynt weddill eu bywydau. Er y gwyddys (ar sail gofynion statudol y Cwricwlwm Cenedlaethol) iddynt gael cyfoeth o brofiadau gwerthfawr am agweddau ar fydd gwaith yn gyffredinol, nid ymddengys iddynt gael cymaint o brofiadau am bwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle'n benodol yn ôl y Dirprwy Bennaethiaid. Canlyniad y diffyg gwybodaeth am bwysigrwydd dwyieithrwydd yn y gweithle oedd yr ansicrwydd cyson a welwyd wrth ystyried astudio ymhellach trwy gyfrwng y Gymraeg (Tablau 35- 40) a dewis iaith gwaith eu dyfodol (Tabl 47). Y mae gan gwmni Gyrfaoel Cymru gyfraniad a chyfrifoldeb allweddol i sicrhau'r lefel uchaf posibl o wybodaeth am yrfaeodd. Mewn cyfweiliadau gyda rhai o swyddogion Gyrfaoel Cymru a oedd yn ymweld â'r ysgolion a ymchwiliwyd ac yn cynnal cyfweiliadau ffurfiol gyda'r disgyblion, roedd yn amlwg eu bod yn ymwybodol o hawliau ieithyddol cyfartal y disgyblion ond ymddengys nad oedd ganddynt ymwybyddiaeth na

gweledigaeth amlwg am amcanion Cynulliad Cymru gogyfer â dwyieithogi'r gweithlu. Gweithredwyd mewn modd diglosaidd ar brydiau: câi'r siaradwyr Cymraeg beth gwybodaeth am gyrsiau cyfrwng Cymraeg, ond ni châi llawer o ddisgyblion di-Gymraeg eu cymell i ystyried gwella eu sgiliau Cymraeg at ofynion byd gwaith y dyfodol.

Pan holwyd am addysg Gymraeg yn sicrhau gwell swydd yn y dyfodol ar ôl iddynt adael yr ysgol (Tabl 51), cytunai 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 18% o ddisgyblion Ysgol Gyfun Penweddig yn gryf â hynny gyda dim ond 27% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 21% o Ysgol Tregaron a 28% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn cytuno.

Pan holwyd disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol yng Ngwestiwn 17(a) am y posibilrwydd bod addysg Gymraeg yn cynnig addysg o well safon, nifer isel a gytunai â'r gosodiad hwnnw. Dim ond 16% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 24% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 13% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf â'r gosodiad hwnnw gydag ond 19% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 20% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 25% o ddisgyblion Ysgol Penweddig yn cytuno â'r gosodiad. O ystyried yr holl waith ymchwil a wneid ar draws y byd ar agweddau ar addysg ddwyieithog ers canol yr ugeinfed ganrif, y mae lle i ofyn sut na wyddai'r disgyblion am hynny. Yn sicr, gellid dadlau bod gan y Cynulliad, yr awdurdod addysg a'r ysgolion rôl bwysig mewn hyrwyddo llwyddiannau addysg ddwyieithog.

Yn yr un modd, nid ymddangosai fod disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol yn ymwybodol o fanteision gwybyddol a deallusol addysg ddwyieithog. Dim ond

4% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 12% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf fod manteision deallusol i addysg Gymraeg tra cytunai 49% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 28% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â hynny. Unwaith eto, gellir honni bod diffyg cyhoeddusrwydd am y manteision hynny wedi bod yn faen tramgwydd i rai disgyblion ystyried datblygu eu sgiliau dwyieithog ymhellach.

Ymatebai disgyblion y tair ysgol yn gadarnhaol i'r syniad bod addysg Gymraeg yn sicrhau dyfodol yr iaith yn y gymuned (9% Ysgol Llanbedr, 17% Ysgol Tregaron a 23% Ysgol Penweddig yn cytuno'n gryf â'r gosodiad ac yna 58% Ysgol Llanbedr, 50% Ysgol Tregaron a 42% Ysgol Penweddig yn cytuno â'r gosodiad). Ymddangosai eu bod yn ymwybodol o etifeddiaeth a diwylliant y Gymraeg yn eu hardaloedd ac, efallai, yn ymfalchio yn eu rhan yn y gymuned, er y cydnabyddir bod hynny yn hawlio rhagor o ymchwil ansoddol.

Gwelwyd bod gan ddisgyblion y tair ysgol ddiffyg ymwybyddiaeth o dargedau ieithyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mewn ymateb i'r gosodiad am bwysigrwydd addysg Gymraeg i Lywodraeth Cynulliad Cymru (Tabl 53), dim ond 6% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 10% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gredai hynny'n gryf tra cytunai 42% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 50% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 33% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad: hynny yw, 48% o ysgol Llanbedr, 75% o Ysgol Tregaron a 43% o Ysgol Penweddig. Tra y gwneir i ddisgyblion mewn darpariaeth trochiad yng Nghnada deimlo balchder mawr yn eu llwyddiant, ni wneir hynny yng Nghymru gyda'r disgyblion iaith gyntaf. Nid

oeddent yn ymwybodol o amcanion a dyheadau'r Cynulliad, megis a gyhoeddwyd mewn dogfennau fel Iaith Pawb (LICC, 2003) a'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad (LICC, 2009), er bod rheiny yn berthnasol iddynt. Gellid dadlau bod lle i ehangu gwybodaeth am waith a chynlluniau'r Cynulliad o fewn rhaglenni addysg fugeiliol a dinasyddiaeth yr ysgolion, fel y gwêl y disgyblion eu rhan yn y broses honno.

Ere u bod yn ymwybodol o bwysigrwydd y Gymraeg yn eu cymunedau, ni chredai'r disgyblion mor gryf bod addysg Gymraeg yn diogelu'r iaith o fewn eu teuluoedd. Mewn ymateb i osodiad am bwysigrwydd addysg Gymraeg i sicrhau dyfodol y Gymraeg o fewn eu teuluoedd (Cwestiwn 7e), maentumiai ond 6% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 23% o ddisgyblion Ysgol Penweddig eu bod yn cytuno'r gryf ei bod yn bwysig iddynt. Cytunai 58% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 32% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad. Cafwyd cyfanswm, felly, o 64% yn Ysgol Llanbedr, 67% yn Ysgol Tregaron a 55% yn Ysgol Penweddig. Gan fod teuluoedd yn ffurfio rhan bwysig o'r gymuned a chan yr ystyrir y trosglwyddiad iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn allweddol i barhad ieithyddol, sef y Cam 6 hollbwysig yn y fframwaith Graded Inter-Generational Disruption Scale (GIDS) gan Fishman (1991), y mae lle i ofyn i ba raddau y gwelai'r disgyblion y teulu'n uned llai dylanwadol parthed y Gymraeg gan gysylltu'r Gymraeg â byd addysg a'r gymuned yn bennaf.

Er i fwyafrif disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol ddilyn rhaglenni astudio Cymraeg iaith gyntaf yn y sector cynradd ac uwchradd a byw mewn

cymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf, cafwyd lefel isel ohonynt hefyd yn cytuno â'r gosodiad bod y Gymraeg yn bwysig i'w hunaniaith a'u hunanwerth, fel y dangoswyd mewn ymateb i Gwesiwn 17(f). Ond 9% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 25% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 15% o ddisgyblion Ysgol Penweddig a gytunai'n gryf ei bod yn bwysig iddynt tra cytunai 34% o ddisgyblion Ysgol Llanbedr, 42% o ddisgyblion Ysgol Tregaron a 36% o ddisgyblion Ysgol Penweddig â'r gosodiad. Cydnabyddir eto bod hynny'n hawlio mwy o ymchwil ansoddol.

ARGYMHELLION

Ymchwil oedd hwn a ganolbwyntiai ar ddisgyblion Blwyddyn 11 mewn tair ysgol uwchradd yn Sir Geredigion ac a astudiai'r Gymraeg fel iaith gyntaf ar gyfer arholiadau TGAU Cyd-bwyllgor Addysg Cymru. Ar sail y lefel ddisgwyliedig honno o gyrrhaeddiad yn yr iaith Gymraeg, penderfynwyd ymchwilio i awydd y disgyblion hynny i barhau i ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng astudio pynciau ym Mlynedd 12 a 13. Ystyriwyd y gallai hynny fod yn fodd i asesu dichonolrwydd cynlluniau ieithyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt lefel yr ymwybyddiaeth ohonynt ymhlith disgyblion oedd ar fin gorffen cyfnod addysg statudol wrth iddynt gynllunio ar gyfer y dyfodol, a'u hawydd i uniaethu â'r cynlluniau ieithyddol hynny.

Ymhlith y cynlluniau arfaethedig hynny gellir nodi:

- (a) cynhyrchu a chynnal siaradwyr y Gymraeg fel yr amlinellwyd mewn dogfennau swyddogol fel Iaith Pawb (LICC, 2003);
- (b) diwallu'r angen i gryfhau lefel sgiliau dwyieithog y gweithlu ar gyfer y dyfodol;
- (c) cynllunio gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg yng nghyfnodau ôl-14 addysg a hyfforddiant a dilyniant cadarn ieithyddol o un cyfnod i'r nesaf er mwyn sicrhau y gall pob dysgwr ddatblygu ei sgiliau yn y Gymraeg i'w lawn botensial (Nodau Strategol 2 a 3 y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg terfynol (LICC, 2010));
- (ch) sicrhau cynnydd pellach o 7% yn nifer y disgyblion yng Nghymru a all ymgymryd ag addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg.

Dengys tystiolaeth yr ymchwil yn gyffredinol bod ffactorau ar waith ar hyn o bryd a all lesteirio cynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer sicrhau'r cynnydd hwnnw. Ymddengys hefyd y gallai'r ffactorau hynny fod yn effeithio ar ei gilydd i raddau ac mewn cylch dieflig yn hytrach nag mewn modd achos ac effaith uniongyrchol efallai. Un ffactor cwbl greiddiol a amlygwyd gan yr ymchwil oedd bod diffyg hyder yn y defnydd o'r Gymraeg yn nodweddu rhai disgyblion ar draws y tair ysgol a allai, felly, eu digymhell rhag ymgymryd ag addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y dyfodol yn y cyfnod ôl-16 ac wedi hynny. Roedd hynny hefyd yn adlewyrchu adroddiad Lewis a Williams (2006) parthed awydd disgyblion Blwyddyn 12 i barhau i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg yn y sector addysg uwch. Yn ôl y data, fodd bynnag, dadleuir y gallai'r rhesymau am hynny wahaniaethu rhwng Ysgol Gyfun Penweddig ar y naill law a'r ddwy ysgol Gymraeg draddodiadol ar y llaw arall.

Mynychid Ysgol Gyfun Penweddig gan ganran gymharol sylweddol o blant o gefndir di-Gymraeg ym Mlwyddyn 11 gyda 75% wedi nodi iddynt ddysgu'r Gymraeg yn yr ysgol yn bennaf. Ar hyn o bryd, rhaid amau i ba raddau mae'r cwricwlwm cyfrwng-Cymraeg yn ddigonol i ddiwallu anghenion ieithyddol rhai o'r disgyblion hynny tra bod llawer ohoynt yn astudio trwy gyfrwng y Saesneg yn yr ysgol hon. Argymhellir bod hynny yn hawlio ymchwil pellach i nodweddion ac addasrwydd maes llafur Cymraeg iaith gyntaf Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru os nad yw'r cwricwlwm cyfredol (gan gynnwys y Cwricwlwm Cenedlaethol hyd at ddiwedd Cyfnod Allweddol 3) yn llwyddo i greu siaradwyr ac ysgrifenyddwyr rhugl a hyderus yn y Gymraeg ar ôl cyfnod o un mlynedd ar ddeg o dderbyn hyfforddiant ieithyddol yn yr iaith.

Er i ganran sylweddol o ddisgyblion Blwyddyn 11 Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan (42%) ac Ysgol Uwchradd Tregaron (66%) ddod o gefndiroedd ieithyddol Cymraeg, ac er iddynt, yn ôl tystiolaeth cyfweiliadau â'r Dirprwy Benaethiaid, astudio cwricwlwm Cyfnod Allweddol 3 yn bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, ymddengys y gallai'r ddarpariaeth bresennol yng Nghyfnod Allweddol 4, lle addysgid yn "ddwyieithog", lesteirio datblygiad pellach yn yr iaith. Gellid gwahaniaethu yma rhwng dau fath o addysg "gynhaliol dreftadaethol" (Cummins, 1992) ar gyfer siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, sef: (a) addysg dreftadaethol statig a (b) addysg dreftadaethol gynhaliol-gyfoethogiadol (maintenance-enrichment). Tra llwydda'r ail ddarpariaeth i ddatblygu iaith disgyblion yn gyson gan feithrin gwybodaeth o derminoleg bwrpasol ynghyd â sgiliau ieithyddol ac ati, llwydda'r cyntaf ond i amddiffyn dealltwriaeth disgyblion o'r iaith efallai, megis ar lefel sgyrsiol iaith bob-dydd. Pwynt pwysig arall a gyfyd yma felly, yw'r modd y gwahaniaetha Cummins (1992) rhwng Iaith Gyfathrebu Ryngpersonol Sylfaenol (Basic Interpersonal Communication Skills: BICS) a Hyfedredd Iaith Academaidd a Gwybyddol (Cognitive Academic Language Proficiency: CALP). Maentumir y gallai'r ddarpariaeth ddwyieithog bresennol gyfrannu'n sylweddol at ddiffyg hyder disgyblion yn yr iaith gan lesteirio hyfedredd angenrheidiol pellach mewn defnydd academaidd ohoni ar ôl Cyfnod Allweddol 3. Cydnabyddir na ellir bod yn gwbl sicr o hynny ar sail yr ymchwil presennol gan na archwiliwyd hynny o fewn dosbarthiadau, megis drwy arsylwi nodweddion defnydd disgyblion o'r iaith neu fethodoleg yr addysgu a'r dysgu "dwyieithog". Er hynny, argymhellir bod yr agwedd hon ar y ddarpariaeth bresennol yn galw am ymchwil pellach a fyddai o natur mwy ansoddol.

Fel y soniwyd uchod, ymddengys y gallai ffactorau unigol sydd yn codi o'r ymchwil hwn fod yn gysylltiedig â'i gilydd ac yn gweithredu'n rhyngweithiol. Mewn ysgolion Cymraeg "traddodiadol" sydd heb amddiffynfa ieithyddol gyffredinol yn erbyn effeithiau mewnlifiad a lle ceir siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn gymysg â'i gilydd yn yr un dosbarth, gall hynny gael effaith bellgyrhaeddol ar y ddeinameg a'r arfer ieithyddol ymhlith y siaradwyr Cymraeg eu hunain. Awgrymir y gallai'r data a gasglwyd yn Adran A yr holiadur mewn ymateb i Gwestiynau 4–6 (lle holwyd am ddefnydd disgyblion o'r iaith mewn cyd-destunau gwahanol, megis gyda ffrindiau o fewn gwersi, y tu allan i'r gwersi a thu allan i'r ysgol) fod yn adlewyrchu'r un broblem. Fel y cyfeiriwyd yn yr adolygiad o lenyddiaeth ym Mhennod 2, sonia Jones (1995) am yr angen i atgyfnerthu defnydd disgyblion o'r iaith y tu allan i'r dosbarth a'r ysgol. Er iddo gyfeirio yn benodol ar y pryd at fodel yr ysgol Gymraeg benodedig, efallai bod hynny yr un mor wir bellach yn achos ysgolion Cymraeg traddodiadol yn sgil y mewnlifiad parhaus. Er mwyn atgyfnerthu defnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith disgyblion o gefndiroedd di-Gymraeg (a chan godi'r safonau ieithyddol yn academiaidd yn sgil hynny), dylid sicrhau rhaglen gydlynus o weithgareddau all-gyrsiol drwy ddefnyddio asiantaethau swyddogol a mudiadau megis Urdd Gobaith Cymru, Mentrau Iaith a Theatr mewn Addysg. Hefyd, y mae'n hanfodol bod lle i ddatblygu cyfleoedd a chynnig profiadau newydd i'r disgyblion hynny drwy ystyried meysydd mwy arloesol megis y Cyfryngau, Technoleg Gwybodaeth ac agweddau ar Chwaraeon. Ymddengys fod Prosiect Cefnogi Arferion Iaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn targedu agweddau ar ddefnydd anffurfiol o'r Gymraeg ymhlith

disgyblion ysgolion uwchradd fel rhan o Gynllun Gweithredu y Strategaeth Ieuenctid.

Ffactor hollbwysig arall a amlygwyd gan yr ymchwil oedd diffyg ymwybyddiaeth a gwybodaeth disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol am argaeledd cyrsiau cyfrwng-Cymraeg yn y chweched dosbarth (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer astudio Sgiliau Allweddol) ac ar ôl gadael yr ysgol.

Unwaith yn rhagor, yn y ddwy ysgol draddodiadol Gymraeg y cafwyd y diffyg ymwybyddiaeth hwnnw fwyaf. Pwysleisir bod hynny hefyd yn wir parthed eu gwybodaeth am gynlluniau arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer creu Cymru ddwyieithog (LICC, 2003) ac i gynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg ar gyfer gweithlu'r dyfodol. Soniwyd eisoes sut y ceir y ddarpariaeth yrfaol honno yn yr ysgolion mewn modd statudol gan ddechrau mor gynnar â diwedd Cyfnod Allweddol 3. Ar sail y data a gasglwyd i Gwestiwn 12 fodd bynnag, rhaid gofyn i ba raddau y ceir gogwydd gadarn gan gwmni Gyrfa Cymru i fanteision galwedigaethol addysg ddwyieithog yn y ddarpariaeth a'r cyngor addysg yrfaol a roddir i ddisgyblion. Argymhellir bod hynny'n cael ei gryfhau a'i fonitro yn fwy trylwyr er mwyn galluogi disgyblion i archwilio'r cyfleoedd i barhau i astudio ac i dderbyn hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl cyfnod addysg statudol.

Cyfyngwyd yr ymchwil hwn i dair ysgol gynrychioliadol yng Ngheredigion. Ni ellir cyffredinoli canlyniadau'r ymchwil hwn i awdurdodau addysg eraill yng Nghymru gan y gallai'r newidynnau a fu ar waith yn yr ardal a'r ysgolion dan sylw fod yn hollol unigryw. Er hynny, ar sail yr ymchwil hwn, ymddengys

fod cwestiynau yn codi a allai fod yn gwbl berthnasol i ardaloedd eraill ac i rai o awdurdodau addysg eraill yng Nghymru.

Ffactor arall a ddeilliai o'r ymchwil trwy gyfrwng ymatebion disgyblion i'r holiadur a thrwy gyfweld â Dirprwy Benaethiaid yr ysgolion oedd bod model yr ysgol uwchradd Gymraeg "draddodiadol" a gynrychiolid gan ysgolion uwchradd Llanbedr a Thregaron yn wynebu trafferthion trefniadaethol a chwricwlaidd enbyd o'u cymharu â model yr ysgol Gymraeg benodedig a gynrychiolid gan Ysgol Gyfun Penweddig. Yn wir, ar sail tystiolaeth y data, gellir amau i ba raddau y gall y model "traddodiadol" lwyddo bellach i ddarparu addysg gyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg, sef addysg "gynhaliol-gyfoethogiadol". Gyda dyfodiad cynlluniau cwricwlaidd "Llwybrau Dysgu 14-19" sydd yn hawlio ystod o bynciau ehangach nag erioed, gwelir bod yr anawsterau hynny'n lluosogi. Ymddengys y gallai'r ddau fodel fod mewn cystadleuaeth â'i gilydd mewn ambell ardal. Yn wir, seiliwyd ymchwil Dafis (1979, 1985) ar y penbleth hwnnw ynglŷn â pha fodel o ddarparu addysg cyfrwng-Cymraeg fyddai orau ar gyfer ateb gofynion ieithyddol plant ardal Dyffryn Teifi yn y 1980au, sef yr hyn a alwodd yn fodel "cymathol" (yr ysgol Gymraeg "draddodiadol") a'r model "lluosogaeth ieithyddol-addysgol" (ysgol Gymraeg benodedig ochr yn ochr ag ysgol gyfrwng-Saesneg). Ymddengys i'r gystadleuaeth honno ymylu ar dwyll ar brydiau wrth i ysgolion Cymraeg traddodiadol honni y gallent hwythau hefyd ddarparu addysg "ddwyieithog" â'r un ystod o bynciau â'r ysgol Gymraeg benodedig amgen, ond heb gyflawni eu haddewidion (Hallam & Gruffudd, 1999).

Yn yr un modd, dengys y data a gasglwyd yn yr ymchwil hwn gyn leied oedd y ddarpariaeth gyfrwng-Cymraeg yn y ddwy ysgol Gymraeg draddodiadol. Ychydig iawn o bynciau a astudid gan ddisgyblion y ddwy ysgol hynny trwy gyfrwng y Gymraeg mewn dosbarthiadau ar wahân. Er nad archwiliwyd ai achos ynteu effaith y ddarpariaeth gwricwlaidd oedd hynny, eto, o safbwynt diwallu'r posibilrwydd o gael disgyblion i ymgymryd ag astudiaethau pellach trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mlynnyddoedd 12 a 13 (ac wedi hynny ar lefel addysg uwch o bosibl), ni argoeliai'n dda o safbwynt y niferoedd cyfredol. Yn wyneb ffactorau posibl megis prinder staff digonol yn yr ysgolion hynny felly, ymddengys mai'r polisi cwricwlaidd (trwy geisio cynnig cyrsiau yn "ddwyieithog" o fewn yr un dosbarthiadau yng Nghyfnod Allweddol 4) oedd ymdrechu i ateb gofynion ieithyddol dwy garfan wahanol, er i hynny arwain at ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn sefyll arholiadau yn y Saesneg yn unig yn y pen draw. Heb allu ysgolion Cymraeg traddodiadol i ddarparu cyrsiau cyflawn trwy gyfrwng y Gymraeg ar wahân yng Nghyfnod Allweddol 4, gan sicrhau parhad y cyfrwng o Gyfnod Allweddol 3, cwestiwn naturiol fyddai gofyn sut y gellir disgwyl i ddisgyblion ddangos awydd i ymgymryd â chysiau cyfrwng Cymraeg yn ddiweddarach yn y cyfnod ôl-16. Argymhellir bod gallu model yr ysgol Gymraeg draddodiadol i ymateb i ofynion arfaethedig "Llwybrau Dysgu 14-19" yn hawlio ymchwil pellach. O fewn y gyfundrefn addysg Gymraeg uwchradd sydd yn cynnwys 55 o ysgolion "Cymraeg eu hiaith", dyma'r model mwyaf niferus, sef 30 o sefydliadau "traddodiadol" ochr yn ochr â 25 o ysgolion Cymraeg "penodedig". Awgrymir, felly, y gallai'r trafferthion cwricwlaidd cyfrwng-Cymraeg a welwyd mewn dwy ysgol yng Ngheredigion fod yn gyffredin i ardaloedd eraill yng Nghymru, sydd yn codi

cwestiynau sylfaenol ac allweddol parthed gallu'r model hwn (a) i barhau i ddarparu'n effeithiol ystod eang o gyrsiau cyfrwng-Cymraeg "academaidd" a galwedigaethol ochr yn ochr â chysiau cyfrwng Saesneg, a (b) i ddwyieithogi disgyblion o gefndiroedd Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd gan greu siaradwyr Cymraeg a all ddiwallu gofynion ieithyddol angenrheidiol gweithlu'r dyfodol.

Fel y soniwyd uchod, annilys fyddai honni y gellir cyffredinoli ar sail casgliadau'r ymchwil hwn. Fodd bynnag, fel y dangoswyd gan Bassey (1989), cryfder ymchwil yn aml yw ei *berthnasadwyedd* i sefyllfaoedd eraill yn hytrach na'i gyffredinoladwyedd. Argymhellir, felly, bod yma ffactorau y dylid eu harchwilio ymhellach os disgwylir i'r ysgol Gymraeg draddodiadol chwarae ei rôl yn llawn yn natblygiad y gyfundrefn addysg Gymraeg ac yng nghynlluniau ieithyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru.

CYFEIRIADAU

- Aitchinson, J.W. & Carter, H.A., *A Geography of the Welsh Language 1961-1991*, Cardiff: University of Wales Press, 1994.
- Aitchinson, J.W. & Carter, H.A., *Spreading the Word*, Talybont: Gwasg y Lolfa, 2004.
- Baker, C., *Aspects of Bilingualism in Wales*, Clevedon: Multilingual Matters, 1985.
- Baker, C., *Attitudes and Learning*, Clevedon: Multilingual Matters, 1992.
- Baker, C., *Foundations of Bilingual Education and Bilingualism*, Clevedon: Multilingual Matters, 2001.
- Baker, C., *A Parents' and teachers' Guide to Bilingualism*, Clevedon: Multilingual Matters, 2007.
- Bassey, M. Pedagogic Research: 'On the Relative Merits of search for Generalization and study of Single Events'. Yn J. Bell (ed.) *Conducting Small-scale Investigations in Educational Management*, London: Paul Chapman Publishing, 1989.
- BERA, *Good Practice in Educational Research Writing*, Notts., Diddyddiad.
- BERA, *Revised Ethical Guidelines for Educational Research*, Notts., 2004.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Cydnabod Angen: Arolwg o Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog ar Gyfer Disgyblion ag Anghenion Addysgol yng Nghymru*, 2001.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Addysg a Hyfforddiant Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog Bwrdd yr iaith Gymraeg*, 2004.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Strategaeth Ieuencid Bwrdd yr Iaith Gymraeg*, Caerdydd, 2005.
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg, *Arolwg defnydd Iaith 2004*, Caerdydd, 2006.
- Campbell, C. & Parker, A., *Cymhellion Rhieni Di-Gymraeg dros Ddewis Addysg Gymraeg I'w Plant*, Cylchgrawn Addysg Cymru, Cyfrol 3, Rhif 1: heb ddyddiad.
- CBAC/ WJEC Canlyniadau arholiadau TGAU ar gael ar lein:
<http://www.wjec.co.uk/uploads/publications>
- Chin, R. & Benne, K., 'General Strategies for effecting change in human systems'. Yn W.O. Beinis, K.D. Benne, R. Chin & K.T. Corey (eds) *The Planning of Change*. Holt, Rinehart & Winston: New York, 1976.

- Cooper, R.L., *Language Planning and Social Change*. Cambridge University Press: Cambridge, 1989.
- Coulmas, F., 'European Integration and the Idea of the National Language'. Yn F. Coulmas (ed.), *A Language Policy for the European Community*. Mouton de Gruyter: Berlin/ New York, 1991.
- Cummins, J., 'Heritage language Teaching in Canadian Schools'. Yn *Journal of Curriculum Studies*, 24 (3), 281- 286.
- Cylch yr Iaith, *Coleg Ffederal Cymraeg o fewn Prifysgol Cymru*. Heb ei gyhoeddi, 2004.
- Cyngor Ysgol, *European Charter for Regional and Minority Languages: Committee of Experts' Second Report on the UK's Compliance*, 2006.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Ein Hiaith: Ei dyfodol*, Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Adolygiad o'r Polisi o'r Iaith Gymraeg, Caerdydd, 2001.
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Adolygiad Polisi o Anghenion Addysgol Arbennig Rhan 1: Adnabod ac Ymyrryd yn Gynnar*, Y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, Caerdydd, 2004.
- Dafis, C. *Teuluoedd Saesneg mewn ardal Gymraeg: astudiaeth o integreiddio cymdeithasol, diwylliannol ac ieithyddol*, Traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi, Aberystwyth: Coleg Prifysgol, 1979.
- Dafis, C., 'Effeithiau Mewnfudiad ar iaith mewn cymdeithas ac mewn ysgol.' Yn G. Edwards & J. Jones (gol), *Ysgrifau ar Addysg Gymraeg, Rhif 3*, Aberystwyth: Canolfan Addysg Ddwyieithog ac Addysg Iaith, 1985.
- Daugherty, R., Phillips, R. a Rees, G., *Education Policy-Making in Wales*, Cardiff: University of Wales Press, 2000.
- Estyn, *Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru*, 2002.
- Estyn, *Arolwg o Waith Athrawon Bro yng Nghymru*, Caerdydd, 2002.
- Estyn, *Adroddiad ar brosiectau peilot addysg drochi Cymraeg a dysgu iaith trwy ddulliau dwys mewn ysgolion*, Caerdydd, 2006.
- Estyn, *Darpariaeth Gymraeg a dwyieithog ar gyfer dysgwyr 14-19 oed (papur trafod)*, Caerdydd, 2008.
- Fellman, J., *The Revival of a Classical Tongue, Eliezar Ben Yehudah and the Modern Hebrew Language*, The Hague: Mouton, 1973.

- Fiontar, *20-Year strategy for the Irish Language*, Dublin: Dublin City University Press, 2009.
- Grosjean, F., *Life With Two Languages: An Introduction to Bilingualism*, Harvard University Press: Cambridge, Mass., 1982.
- Gruffudd, Heini, Meek, Elin a Stevens, Catrin, *Symudiad disgyblion rhwng Cymraeg a Chymraeg Ail Iaith*, Llais y Lli: Abertawe, 2004.
- Hallam, P. & Gruffudd, H., *Dwyieithrwydd Aghyflawn. Astudiaeth o'r defnydd o'r Gymraeg wrth drosglwyddo o addysg gynradd i addysg uwchradd mewn ardal draddodiadol Gymraeg*. Caerdydd: Adran Addysg Barhaus Abertawe/ Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999.
- Hughes, M., *Citizenship 2000: The Lesser Used European Languages*, Cardiff: University of Wales Press, 1993.
- Jones, B.M. & Jones, J., *Datblygiad Iaith Disgyblion Mewn Ysgolion Uwchradd Dwyieithog*, Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Iaith, 1991.
- Jones, B.M., *Linguistic Performance and Language Background*, Aberystwyth: Canolfan Astudiaethau Addysg, 1992.
- Jones, B.M., 'Schools and Speech Communication in a Bilingual setting'. Yn B.M. Jones & P.A.S.Ghuman (eds.) *Bilingualism, Education and Identity*, Cardiff: University of Wales Press, 1995.
- Jones, G. Rh., 'Factors influencing the choice of Higher Education in Wales', Yn *Contemporary Wales Vol. 23*, To be published/ I'w gyhoeddi yn Awst 2010.
- Jones, G.W., *Agweddau ar Ddysgu Iaith*, Bangor: Canolfan Astudiaethau Iaith, 1993.
- Khleif, B.B., *Language, Ethnicity and Education in Wales*, New York: Mouton, 1980.
- Laugharne, J., 'Language Use and Language Attitudes in Wales', Yn D. Lasagabaster & A. Huguel, *Multilingualism in European Bilingual Contexts*, Clevedon: Multilingual Matters, 2007.
- Lewis, H.G., *Astudiaeth o dwf Addysg Ddwyieithog yng Nghymru hyd at 1988*. Traethawd ymchwil heb ei gyhoeddi, Aberystwyth: Prifysgol Cymru Aberystwyth, 1999.
- Lewis, H.G., & Williams, E., *Agweddau myfyrwyr ôl-16 at addysgu uwch cyfrwng Cymraeg*, Caerfyrddin: Dysg/ Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg, 2006.

- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Ymgeisio yn Uwch, Addysg Uwch a'r Wlad sy'n Dysgu*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2002.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwylieithog*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2003.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Llwybrau Dysgu 14 - 19 Canllawiau 1 a 11*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2006.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Diffinio Ysgolion yn ôl y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2007.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith: Fframwaith i bobl ifanc 11-19 oed yng Nghymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru/ Gfk NOP Ymchwil Cymdeithasol, *Opsiynau dysgu i bobl ifanc 14 -19 oed yng Nghymru*. Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ar gyfer dysgu ôl-16 yng Nghymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg: Ymgynghoriad*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2009.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010.
- Peal, E & Lambert, W.E., “*The Relationship of Bilingualism in Intelligence*”. Yn *Psychological Monographs* 76 (27) 1-23, 1962.
- Pritchard-Jones, E., *Addysg Gymraeg a dwyieithog yng Nghymru: gosod y cyddestun*, Caerdydd: Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 1999.
- Rannut, M., “*The role in Reversing language Shift: the Estonian Experience.*” Yn D. Ó Riagáin (ed.) *Voces Diversae: Lesser-used Language Education in Europe*. Belfast: Cló Ollscoil na Banríonna, 2006.
- Roberts, C., *Teaching and Learning in Bilingual Schools*, Traethawd Ph.D heb ei gyhoeddi. Bangor: Prifysgol Cymru, 1985.

Spolsky, B., 'Conditions for Language Revitalisation: A Comparison of the Cases of Hebrew and Maori', *Current Issues in Language and Society*, 2(3), 177 – 201, 1995.

Swyddfa Gymreig/ Welsh Office, *The Welsh Language in Wales*, Cardiff: HMSO, 1981.

Wavehill Consulting, *Addysg prifysgol cyfrwng Cymraeg*, Adroddiad ar gyfer Canolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg heb ei gyhoeddi. 2008.

Williams, C., *Cyfrwng Cymraeg mewn Addysg Uwch: Tueddiadau a Dyheadau*, Bangor/ Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Williams, C., *Ennill Iaith: Astudiaeth o Sefyllfa Drochi yn 11-16 oed*, Bangor: Ysgol Addysg, Prifysgol Cymru (Bangor), 2004.

Williams, C.H., *Addysg Ddwylieithog yng Ngymru Ynteu Addysg ar gyfer Cymru ddwylieithog?*, Bangor: Canolfan Astudiaethau Iaith, 1998.

Williams, I., *Y Gymraeg fel cyfrwng mewn Addysg Uwch: Agweddau a disgwyliadau ysgol*, Adroddiad ar gyfer Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg Prifysgol Cymru, Caerdydd: Bwrdd Addysgu Cyfrwng Cymraeg, 1989.

Youngman, M.D., *Designing and Analysing Questionnaires*, Notts., 1978.

ATODIADAU

1. Holiadur disgyblion Blwyddyn 11 y tair ysgol
2. Cwestiynau ar gyfer y cyfweliadau gyda'r athrawon a swyddogion Gyrfu Cymru

ATODIAD 1

HOLIADUR BLWYDDYN 11 (Cymraeg Iaith Gyntaf yn unig)

Enw (os dymunir):

Ysgol:

Blwyddyn 11

Dosbarth:

ADRAN A

Ticiwch pa un o'r categorïau canlynol sydd yn berthnasol i chi:

1. Rwyf o'r farn mai **Cymraeg yw fy iaith gyntaf**:

Ie	
Nage	

2. **Yn yr ysgol** y dysgais Gymraeg yn bennaf:

Ie	
Nage	

3. Fel arfer, yr iaith rwyf yn **siarad gartref gydag aelodau fy nheulu** yw:

Cymraeg yn bennaf	
Saesneg yn bennaf	
Y ddwy iaith yn eithaf cyfartal	

4. Fel arfer, yr iaith rwyf yn **siarad gyda'm ffrindiau yn ystod gwersi ysgol** yw:

Cymraeg yn bennaf	
Saesneg yn bennaf	
Y ddwy iaith yn eithaf cyfartal	

5. Fel arfer, yr iaith rwyf yn **siarad gyda'm ffrindiau yn yr ysgol y tu allan i'r gwersi** yw:

Cymraeg yn bennaf	
Saesneg yn bennaf	
Y ddwy iaith yn eithaf cyfartal	

6. Fel arfer, yr iaith rwyf yn **siarad gyda'm ffrindiau yn gymdeithasol y tu allan i'r ysgol** yw:

Cymraeg yn bennaf	
Saesneg yn bennaf	
Y ddwy iaith yn eithaf cyfartal	

ADRAN B

1. Cyfanswm y pynciau rydych yn eu hastudio **trwy gyfrwng y Gymraeg** ym Mlwyddyn 11: _____
2. Ticiwch y pynciau rydych yn eu hastudio **trwy gyfrwng y Gymraeg** ym Mlwyddyn 11:

Mathemateg		Busnes	
Gwyddoniaeth		TG/ cyfrifiaduron	
Daearyddiaeth		Twristaeth a Hamdden	
Hanes		Datbygiad plant	
Addysg Grefyddol		Gofal cwsmeriaid	
Celf		Arlwyo/ coginio	
Cerddoriaeth		Arall: nodwch beth	
Drama			
Dylunio a Thechnoleg			
Ffrangeg			
Almaeneg			
Sbaeneg			
Addysg Gorfforol			

3. Ticiwch y pynciau y byddwch yn eu hastudio **trwy gyfrwng y Gymraeg** ym Mlwyddyn 12 ac ym Mlwyddyn 13:

Mathemateg		Busnes	
Gwyddoniaeth		TG/ cyfrifiaduron	
Daearyddiaeth		Twristaeth a Hamdden	
Hanes		Datbygiad plant	
Addysg Grefyddol		Gofal cwsmeriaid	
Celf		Arlwyo/ coginio	
Cerddoriaeth		Arall: nodwch beth	
Drama			
Dylunio a Thechnoleg			
Ffrangeg			
Almaeneg			
Sbaeneg			
Addysg Gorfforol			

4. A ydych yn bwriadu astudio pwnc/ pynciau newydd **trwy gyfrwng y Gymraeg** ym Mlwyddyn 12 neu mewn coleg Addysg Bellach?

Ydw	
Nac ydw	

Os felly, nodwch y pwnc/ pynciau isod:

--

5. Ticiwch ym mha iaith byddwch yn cyflawni gofynion y cyrsiau Sgiliau Allweddol:

	Cymraeg	Saesneg	Amherthnasol
Cyfathrebu			
Cymhwyso rhif			
TGCh			

6. A ydych chi'n bwriadu newid cyfrwng astudio unrhyw bwnc **o'r Gymraeg i'r Saesneg** ym Mlwyddyn 12?

Ydw	
Nac ydw	

Os felly, enwch y pwnc/ pynciau isod:

7. Os byddwch yn **newid cyfrwng** astudio unrhyw bwnc **o'r Gymraeg i'r Saesneg**, nodwch y rheswm/ rhesymau isod drwy dicio'r blwch a/ neu nodwch unrhyw reswm ychwanegol o dan **Arall**.
D.S. Gallwch dicio mwy nag un blwch.

Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	
Dim cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	
Cyngor athro/awes	
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	
Brawd/ chwaer hŷn wedi newid cyfrwng	
Cyngor brawd/ chwaer hŷn	
Cyngor rhiant/ rhieni/ gwarchweidwaid	
Dilyn penderfyniad ffrindiau	
Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg	
Diffyg hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	
Arall (nodwch beth)	

8. Os ydych yn bwriadu newid cyfrwng/ iaith (neu os oes modd i chi newid) a ydych yn credu y byddai'n fanteisiol i astudio pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg petai hynny'n bosibl ?	Ydw
	Nac ydw

9. A ydych yn bwriadu astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol?
(Ticiwch y blwch perthnasol)

	Yn y coleg/ Yn y brifysgol	Yn y gweithle
Byddaf yn sicr		
Gweddol siwr		
Ddim yn siwr		
Na fyddaf		

10. Os nad ydych yn siwr eto, rhowch eich rheswm/ rhesymau (**gallwch dicio mwy nag un blwch**):

Dibynnu a fydd y cwrs ar gael	
Dibynnu ar ddewis fy ffrindiau	
Dibynnu ar y canlyniadau ym mis Awst	
Dibynnu ar gyngor teulu	
Dibynnu ar gyngor yn yr ysgol	
Dibynnu ar leoliad y cwrs	
Arall (nodwch beth)	

11. Os na fyddwch yn astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, rhowch eich rheswm/ rhesymau (**gallwch dicio mwy nag un blwch**):

Dim ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg	
Diffyg adnoddau posibl trwy gyfrwng y Gymraeg	
Dim cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol	
Cyngor athro/awes	
Cyngor Swyddog Gyrfaoedd	
Brawd/ chwaer hŷn wedi newid cyfrwng	
Cyngor brawd/ chwaer hŷn	
Cyngor rhiant/ rhieni/ gwarchweidwaid	
Dilyn penderfyniad ffrindiau	
Diffyg hyder wrth siarad Cymraeg	
Diffyg hyder wrth ysgrifennu Cymraeg	
Wedi cael digon ar astudio trwy gyfrwng y Gymraeg	
Arall (nodwch beth)	

12. I ba raddau ydych chi'n gwybod a yw hi'n bosibl i chi astudio'r pwnc/ maes o'ch dewis chi trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol?

Gwybod yn sicr am gwrs cyfrwng Cymraeg	
Ansicr bod cwrs cyfrwng Cymraeg ar gael	
Gwybod dim byd am gwrs cyfrwng Cymraeg	

13. Os oes gwybodaeth gennych am gwrs/ gyrsiau pellach trwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol, o ble cawsoch y wybodaeth?

Swyddog Gyrfaoedd	
Athro/awes	
Pennaeth Blwyddyn	
Rhieni	
Ffrind	
Ymchwil personol	
Arall: nodwch yma	

14. Os ydych yn **bwriadu newid cyfrwng (o'r Gymraeg i'r Saesneg)** wrth astudio pwnc y flwyddyn nesaf, beth fyddai'n gwneud i chi barhau gyda'r Gymraeg ar ôl gorffen Blwyddyn 11? **Gallwch dicio mwy nag un blwch.**

Cymorth gyda'r Gymraeg (geirfa, termau, ac ati)	
Cyrsiau lle y defnyddir y ddwy iaith	
Sicrwydd bod cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael ar ôl Blwyddyn 11	
Sicrwydd bod cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ar gael yn y coleg/ y brifysgol/ y gweithle	
Arall (nodwch beth)	

15. Pa iaith hoffech chi ei defnyddio ar gyfer eich galwedigaeth yn y dyfodol?

Cymraeg yn unig	
Cymraeg yn bennaf	
Cymraeg a Saesneg yn lled gyfartal	
Saesneg yn bennaf	
Saesneg yn unig	
Iaith arall (nodwch/ eglurwch)	

16. Pe bai rhaid i chi ddilyn cwrs trwy gyswllt fideo neu ddysgu o bell trwy gyfrwng y Gymraeg, a fydddech yn fodlon gwneud hynny?

Byddwn	
Na fyddwn	

17. **Nodwch i ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r brawddegau canlynol:**

(a) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnig addysg o well safon.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(b) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cynnig manteision deallusol.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(c) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn gallu sicrhau gwell swydd a gyrfa ar ôl gadael yr ysgol.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(ch) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau dyfodol yr iaith yn y gymuned.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(d) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried yn bwysig gan y Cynulliad.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(dd) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei ystyried yn bwysig gan y Llywodraeth yn Llundain.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(e) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn sicrhau dyfodol yr iaith o fewn y teulu.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

(f) Mae dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn bwysig i'm hunaniaeth a'm hunanwerth fel unigolyn.

5	4	3	2	1
Cytuno'n gryf	Cytuno	Ansicr	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

ADRAN C

Os ydych yn dymuno, nodwch yma unrhyw sylwadau pellach am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg o safbwynt darpariaeth cyrsiau neu brofiadau personol a gawsoch.

Diolch o galon am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur.

ATODIAD 2

Cwestiynau i'r Swyddog Gyrfa Cymru/ Athrawon â Chyfrifoldeb dros Addysg sy'n gysylltiedig â Byd Gwaith

1. I ba raddau mae'n ofynnol i chi ddarparu gwybodaeth lawn am gyrsiau cyfrwng Cymraeg i'r disgyblion
 - ar lefel statudol/ yn gyfreithiol?
 - yn unol â pholisiau'r Cyngor Sir?
 - yn unol â pholisiau'r ysgolion?
2. Ai yn ôl cais yr unigolyn y trafodir dilyn cyrsiau trwy'r Gymraeg?
3. A yw'r galw'n gwahaniaethu rhwng ysgolion?
4. Beth yw prif gymhelliant disgyblion ar hyn o bryd i gael cyrsiau cyfrwng Cymraeg?
5. I ba raddau mae argaeledd cyrsiau Cymraeg yn y brifysgol yn ffactor yn eu dewis o gyrsiau astudio yn y brifysgol?
6. A yw hi'n bolisi yn y gwasanaeth gyrfaoedd i hyrwyddo amcanion MANTAIS, sef cangen farchnata y Ganolfan Addysg Uwch cyfrwng Cymraeg?
7. I ba raddau mae disgyblion yn derbyn gwybodaeth am fanteision gweithio'n ddwyieithog yn alwedigaethol ac o gynlluniau'r Cynulliad o ddwyieithogi'r gweithlu at y dyfodol?
8. Dengys yr ystadegau yn yr ymchwil diffyg ymwybyddiaeth disgyblion o argaeledd cyrsiau cyfrwng Cymraeg yn y chweched dosbarth/ yn y brifysgol. Sut y gellir esbonio hyn?
9. I ba raddau mae meddalwedd cyfredol a ddefnyddir mewn ysgolion yn darparu gwybodaeth am gyrsiau Cymraeg ar lefel gyfartal â'r Saesneg?
10. Beth yw trywydd atebolrwydd y gwasanaeth gyrfaoedd i ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf o safbwynt darpariaeth ieithyddol?